



Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

2021 dsc 4

Nodiadau Esboniadol

Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021

2021 asc 4

Explanatory Notes

£16.40



Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

2021 dsc 4

Nodiadau Esboniadol

Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021

2021 asc 4

Explanatory Notes

DEDDF CWRICWLWM AC ASESU (CYMRU) 2021

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a basiwyd gan Senedd Cymru ar 09 Mawrth 2021 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.
2. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, mae "Deddf 1996" yn cyfeirio at Ddeddf Addysg 1996 ac mae "Deddf 1998" yn cyfeirio at Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae cyfeiriadau at awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig, lleoliadau a gyllidir ond nas cynhelir a darparwyr addysg eraill yn gyfeiriadau at y rheini yng Nghymru oni nodir fel arall. Mae cyfeiriadau at adrannau a Rhannau yn gyfeiriadau at y rheini o'r Ddeddf, oni nodir fel arall.
3. Hefyd, yn y Nodiadau Esboniadol hyn, mae cyfeiriadau at addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir yn gyfeiriadau at addysg feithrin a ddarperir ac eithrio mewn ysgol feithrin a gynhelir, o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol drwy arfer ei ddyletswydd i sicrhau addysg feithrin o dan adran 118 o Ddeddf 1998. Mae cyfeiriadau at addysg ôl-orfodol yn gyfeiriadau at addysg a ddarperir i bobl ifanc sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.
4. Byrfoddau a ddefnyddir yn gyffredin:

ACRh	Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
CGM	Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
AG	Addysg Grefyddol
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF

5. Mae saith Rhan i'r Ddeddf sy'n cynnwys 85 o adrannau a dwy Atodlen. Mae Rhan 2 wedi ei rhannu'n bedair pennod.

CURRICULUM AND ASSESSMENT (WALES) ACT 2021

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 which was passed by Senedd Cymru on 09 March 2021 and received Royal Assent on 29 April 2021. They have been prepared by the Education Directorate of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.
2. In these Explanatory Notes, “the 1996 Act” refers to the Education Act 1996 and “the 1998 Act” refers to the Schools Standards and Framework Act 1998. References to local authorities, maintained schools, special schools, funded non-maintained settings and other education providers, are to those in Wales unless otherwise indicated. References to sections and Parts are to those of the Act, unless otherwise indicated.
3. Also, in these Explanatory Notes, references to funded non-maintained nursery education, or “FNNE”, are to nursery education provided other than at a maintained nursery school, under arrangements made by a local authority in exercising its duty to secure nursery education under section 118 of the 1998 Act. References to post compulsory education are to education provided to young persons who are above compulsory school age.
4. Commonly used abbreviations:

RSE	Relationships and Sexuality Education
RVE	Religion, Values and Ethics
RE	Religious Education
FNNE	Funded Non-maintained Nursery Education
PRU	Pupil Referral Unit
EOTAS	Education Other Than At School

GENERAL OVERVIEW OF THE ACT

5. The Act has seven Parts comprising 85 sections and two Schedules. Part 2 is separated into four chapters.

6. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau cwricwlwm ac asesu:
 - i ddisgyblion o dan 16 oed mewn ysgolion a gynhelir;
 - i ddisgyblion mewn ysgolion meithrin a gynhelir;
 - i blant sy'n cael addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
 - i ddisgyblion a phlant y mae'r awdurdod lleol wedi gwneud trefniadau (o dan Ddeddf 1996) i addysg gael ei darparu ar eu cyfer ac eithrio mewn ysgol, er enghraifft, mewn UCD; ac
 - mae hefyd yn gwneud darpariaeth benodol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ar gyfer addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir.
7. Mae'r Ddeddf yn diddymu Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") a oedd, cyn i'r Ddeddf hon ddod i rym, yn nodi'r gofynion cwricwlwm ar gyfer ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir yng Nghymru.
8. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch datblygu, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm i ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, ac ar gyfer datblygu a gweithredu cwricwlwm yn y cyd-destunau eraill y mae'r Ddeddf yn gymwys ynddynt. Mae hefyd yn rhoi dyletswyddau a phwerau i Weinidogion Cymru i lunio Codau a chanllawiau i helpu ymarferwyr addysg i fod yn broffesiynol ac yn greadigol wrth ddiwallu anghenion pob dysgwr.
9. Y bwriad yw sicrhau y gall pob disgybl a phob plentyn y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt gael profiadau, gwybodaeth a sgiliau sy'n eu galluogi i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben. I'r perwyl hwn, mae'r Ddeddf yn gwneud yn ofynnol addysgu a dysgu sy'n galluogi'r disgyblion hynny a'r plant hynny i ddatblygu yn y ffyrdd hynny; sy'n eang ac yn gytbwys; sy'n addas ar gyfer eu hoedrannau, eu galluoedd a'u doniau; ac sy'n cynnig cynnydd priodol.
10. Wrth ei wraidd, mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau addysgu a dysgu sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu safonau uwch mewn llythrennedd a rhifedd, i fod yn gymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, i dyfu yn bobl sy'n meddwl mewn ffordd fentrus, greadigol a beirniadol ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a gofalgwr.

6. The Act makes provision about curriculum and assessment arrangements for:
 - pupils under 16 years old at maintained schools;
 - pupils at maintained nursery schools;
 - children receiving FNNE;
 - pupils and children for whom the local authority has made arrangements (under the 1996 Act) for education to be provided otherwise than at a school, for example, in a PRU; and
 - it also makes specific curriculum-related provision for post-compulsory education in maintained schools.
7. Act repeals Part 7 of the Education Act 2002 (“the 2002 Act”) which, prior to the coming into force of this Act, set out the curriculum requirements for maintained schools and maintained nursery schools in Wales.
8. It makes provision about the development, adoption and implementation of a curriculum for pupils at a maintained school or maintained nursery school, and for the development and implementation of a curriculum in the other contexts in which the Act applies. It also confers duties and powers on the Welsh Ministers to produce Codes and guidance to support education practitioners to use their professionalism and creativity to meet the needs of all learners.
9. The intention is to ensure that all pupils and children to whom the Act applies can obtain experiences, knowledge and skills that enable them to develop in the ways described in the four purposes. To this end the Act requires teaching and learning that enables those pupils and children to develop in those ways; that is broad and balanced; that is suitable for their ages, abilities and aptitudes; and that offers appropriate progression.
10. At its core, the Act seeks to secure teaching and learning that supports learners to develop higher standards of literacy and numeracy, to be digitally and bilingually competent, to evolve into enterprising, creative and critical thinkers and to be confident, capable and caring citizens.

11. Defnyddir ymadroddion penodol yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a ddiffinnir yn Neddf Addysg 1996 (neu y rhoddir ystyr iddynt ganddi):

Ymadrodd	Darpariaeth
anghenion dysgu ychwanegol ("additional learning needs")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
awdurdod lleol ("local authority")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
awdurdod lleol yng Nghymru ("local authority in Wales")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
blwyddyn ysgol ("school year")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
cynllun AIG ("EHC plan")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
cynllun datblygu unigol ("individual development plan")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
darpariaeth ddysgu ychwanegol ("additional learning provision")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
disgybl ("pupil")	adran 3 o Ddeddf 1996
disgybl cofrestredig ("registered pupil")	adran 434(5) o Ddeddf 1996
gweithred ymddiriedolaeth ("trust deed")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
oedran ysgol gorfodol ("compulsory school age")	adran 8 o Ddeddf 1996
pennaeth ("head teacher")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
person ifanc ("young person")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
plentyn ("child")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
rhiant ("parent")	adran 576 o Ddeddf 1996
swyddogaethau ("functions")	adran 579(1) o Ddeddf 1996
ysgol arbennig ("special school")	adran 337(2) o Ddeddf 1996
ysgol feithrin ("nursery school")	adran 6(1) o Ddeddf 1996

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

RHAN 1 - CYSYNIADAU SYLFAENOL A DOGFENNAU ALLWEDDOL

Adran 1 - Cyflwyniad

12. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys Rhan 1 ac yn pennu'r cwricwla y mae'r Rhan yn gymwys mewn perthynas â hwy.

Adrannau 2 i 4 - Cysyniadau sylfaenol

13. Mae'r adrannau hyn yn nodi cysyniadau sylfaenol sy'n cael effaith mewn perthynas â chwricwlwm i'r disgyblion a'r plant a ddisgrifir yn adran 1.

11. Certain expressions are used in the Curriculum and Assessment (Wales) Act that are defined (or given meaning by) the Education Act 1996:

Expression	Provision
additional learning needs (<i>"anghenion dysgu ychwanegol"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
additional learning provision (<i>"darpariaeth ddysgu ychwanegol"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
child (<i>"plentyyn"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
compulsory school age (<i>"oedran ysgol gorfodol"</i>)	section 8 of the 1996 Act
EHC plan (<i>"cynllun AIG"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
functions (<i>"swyddogaethau"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
head teacher (<i>"pennaeth"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
individual development plan (<i>"cynllun datblygu unigol"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
local authority (<i>"awdurdod lleol"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
local authority in wales (<i>"awdurdod lleol yng nghymru"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
nursery school (<i>"ysgol feithrin"</i>)	section 6(1) of the 1996 Act
parent (<i>"rhiant"</i>)	section 576 of the 1996 Act
pupil (<i>"disgybl"</i>)	section 3 of the 1996 Act
registered pupil (<i>"disgybl cofrestredig"</i>)	section 434(5) of the 1996 Act
school year (<i>"blwyddyn ysgol"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
special school (<i>"ysgol arbennig"</i>)	section 337(2) of the 1996 Act
trust deed (<i>"gweithred ymddiriedolaeth"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act
young person (<i>"person ifanc"</i>)	section 579(1) of the 1996 Act

COMMENTARY ON SECTIONS PART 1 - BASIC CONCEPTS AND KEY DOCUMENTS

Section 1 - Introduction

12. This section describes the contents of Part 1 and specifies the curricula in relation to which the Part applies.

Sections 2 to 4 - Basic concepts

13. These sections set out basic concepts that have effect in relation to a curriculum for the pupils and children described in section 1.

14. Mae adran 3 yn rhestru'r meysydd dysgu a phrofiad a'r elfennau mandadol o fewn y meysydd hynny. Yr elfennau mandadol yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh); Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM); Cymraeg a Saesneg. Ond mae is-adran (3) yn darparu nad yw Saesneg i'w thrin fel elfen fandadol o gwricwlwm:
- ar gyfer dosbarth y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ynddo o dan saith oed, neu
 - ar gyfer addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, neu
 - i ddisgyblion a phlant o dan saith oed y darperir addysg ar eu cyfer mewn uned cyfeirio disgyblion neu fel arall o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (trafodir hyn ymhellach isod).

Adrannau 6 i 8 - Codau

15. Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Codau a ganlyn:
- Cod yr Hyn sy'n Bwysig – sy'n nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad;
 - y Cod Cynnydd – sy'n nodi sut y mae rhaid i gwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer cynnydd gan ddisgyblion a phlant;
 - y Cod ACRh – sy'n nodi themâu a materion y mae rhaid i elfen fandadol ACRh eu cwmpasu.
16. Rhaid i gwricwlwm i'r disgyblion a'r plant a ddisgrifir yn adran 1 gyd-fynd â'r Codau.
17. Rhaid i Weinidogion Cymru gadw Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd o dan adolygiad a chânt ddiwygio'r Codau hynny.

RHAN 2 - CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

Pennod 1 - Cynllunio a Mabwysiadu Cwricwlwm Adran 9 – Cyflwyniad a dehongli

18. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys Pennod 1 ac yn pennu ei bod yn gymwys i gwricwlwm:
- i ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol;
 - i ddisgyblion mewn ysgol feithrin a gynhelir;
 - i blant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.
19. Mae hyn yn golygu nad yw Pennod 1 yn gymwys i gwricwlwm ar gyfer addysg ac eithrio yn yr ysgol, gan gynnwys UC'Dau, nac i gwricwlwm i ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir sydd dros yr oedran ysgol gorfodol.

14. Section 3 lists the areas of learning and experience and the mandatory elements within them. The mandatory elements are English; Relationships and Sexuality Education (RSE); Religion, Values and Ethics (RVE); and Welsh. But subsection (3) provides that English is not to be treated as being a mandatory element of a curriculum for:
- a class in which most pupils are aged under seven, or
 - funded non-maintained nursery education, or
 - pupils and children aged under seven for whom education is provided in a pupil referral unit or otherwise under section 19A of the Education Act 1996 (discussed further below).

Sections 6 to 8 - Codes

15. These sections require the Welsh Ministers to publish the following Codes:
- the What Matters Code - setting out key concepts for each area of learning and experience;
 - the Progression Code - setting out how a curriculum must make provision for progression by pupils and children;
 - the RSE Code - setting out themes and matters that must be covered by the mandatory element of RSE.
16. A curriculum for the pupils and children described in section 1 must accord with the Codes.
17. The Welsh Ministers must keep the What Matters and Progression Codes under review and may revise those Codes.

PART 2 - CURRICULUM IN MAINTAINED SCHOOLS, MAINTAINED NURSERY SCHOOLS AND FUNDED NON-MAINTAINED NURSERY EDUCATION

Chapter 1 - Curriculum Design and Adoption

Section 9 - Introduction and interpretation

18. This section describes the contents of Chapter 1 and specifies that it applies to a curriculum for:
- pupils at a maintained school who are under compulsory school age;
 - pupils at a maintained nursery school;
 - children for whom FNNE is provided.
19. This means that Chapter 1 does not apply to a curriculum for EOTAS, including PRUS, or to a curriculum for pupils at a maintained school who are over compulsory school age.

Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir

Adran 10 – Cynllunio cwricwlwm

20. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir gynllunio cwricwlwm.
21. Rhaid i'r cwricwlwm gydymffurfio â'r gofynion a nodir ym Mhennod 2 o Ran 2 (gweler adrannau 20 i 24 ac adran 25). Trafodir y gofynion hyn ymhellach isod. Mae'n bwysig nodi bod y gofynion ar gyfer cynnwys cwricwlwm yn achos disgyblion 14 i 16 oed yn wahanol i'r gofynion i ddisgyblion iau. Bydd y gofynion gwahanol hyn yn treiddio i gynllunio cwricwlwm.

Adran 11 – Mabwysiadu cwricwlwm

22. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir fabwysiadu'r cwricwlwm sydd wedi ei gynllunio o dan adran 10 fel y cwricwlwm i ddisgyblion yr ysgol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi crynodeb o'u cwricwlwm mabwysiedig.
23. Bydd angen i'r pennaeth a'r corff llywodraethu gytuno i fabwysiadu'r cwricwlwm.

Adran 12 – Adolygu a diwygio cwricwlwm

24. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir gadw cwricwlwm mabwysiedig yr ysgol o dan adolygiad. Rhaid iddynt sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion a grybwyllir uchod, os oes angen drwy ei ddiwygio.
25. Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm mabwysiedig yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion hynny, rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ystyried yr hyn sydd wedi ei ddangos gan unrhyw drefniadau asesu a wneir ganddynt o dan y Ddeddf. (Gallai canlyniadau'r trefniadau asesu, er enghraifft, ddangos nad yw'r cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd priodol ac felly fod angen ei ddiwygio er mwyn ymdrin â hyn).

Adrannau 13 a 14 – Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cwricwlwm ar gyfer lleoliadau addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir

26. Mae adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cwricwlwm y maent yn ystyried ei fod yn addas ar gyfer addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir. Mae'r dull hwn – sy'n wahanol i'r dull ar gyfer ysgolion – yn adlewyrchu'r ffaith na fydd gan bob darparwr addysg a gyllidir ond nas cynhelir yr adnoddau neu'r profiad i gynllunio ei gwricwlwm ei hun.
27. Rhaid i'r cwricwlwm a gynllunnir gan Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r gofynion ym Mhennod 2 o Ran 2.
28. Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw'r cwricwlwm addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir y maent wedi ei gyhoeddi o dan adolygiad a'i ddiwygio os oes angen i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion a grybwyllir uchod. Os ydynt yn diwygio eu cwricwlwm addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu cwricwlwm diwygiedig.

Maintained schools and maintained nursery schools

Section 10 – Curriculum design

20. This section requires the head teacher of a maintained school or maintained nursery school to design a curriculum.
21. The curriculum must comply with the requirements set out in Chapter 2 of Part 2 (see sections 20 to 24 and section 25). These requirements are discussed further below. It is important to note that the requirements for curriculum content in the case of pupils aged 14 to 16 differ from the requirements for younger pupils. These different requirements will feed through into the design of a curriculum.

Section 11 – Curriculum adoption

22. This section requires the head teacher and governing body of a maintained school or maintained nursery school to adopt the curriculum designed under section 10 as the curriculum for the school's pupils. It also requires them to publish a summary of their adopted curriculum.
23. Both the head teacher and governing body will need to agree to adopt the curriculum.

Section 12 – Curriculum review and revision

24. This section requires the head teacher and governing body of a maintained school or maintained nursery school to keep the school's adopted curriculum under review. They must ensure that it continues to comply with the requirements mentioned above, if necessary by revising it.
25. In considering whether the adopted curriculum continues to comply with those requirements, the head teacher and governing body must consider what has been shown by any assessment arrangements made by them under the Act. (The results of the assessment arrangements might, for instance, indicate that the curriculum is not making provision for appropriate progression and so needs to be revised to deal with this).

Sections 13 and 14 – Welsh Ministers' duty to publish a curriculum for funded non-maintained nursery education settings

26. Section 13 requires the Welsh Ministers to publish a curriculum which they consider is suitable for FNNE. This approach – which differs from that for schools – reflects the fact that not all FNNE providers will have the resources or experience to design their own curriculum.
27. The curriculum designed by the Welsh Ministers must comply with the requirements in Chapter 2 of Part 2.
28. Section 14 requires the Welsh Ministers to keep the FNNE curriculum they have published under review and revise it if necessary to ensure it continues to comply with the requirements mentioned above. If they revise their FNNE curriculum, the Welsh Ministers must publish their revised curriculum.

Adrannau 15 ac 16 – Mabwysiadu, adolygu a diwygio cwricwlwm

29. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir fabwysiadu cwricwlwm a chyhoeddi crynodeb ohono. Rhaid i'r cwricwlwm mabwysiedig fodloni'r gofynion ym Mhennod 2 o Ran 2.
30. Caiff y cwricwlwm a fabwysiedir gan y darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir fod yr un a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13 neu'n gwricwlwm addas arall.
31. Mae adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir gadw ei gwricwlwm mabwysiedig o dan adolygiad. Rhaid iddo sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion a grybwyllir uchod, os oes angen drwy ei ddiwygio.
32. Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm mabwysiedig yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion hynny, rhaid i'r darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ystyried yr hyn sydd wedi ei ddangos gan unrhyw drefniadau asesu a wneir ganddo o dan y Ddeddf. (Gallai canlyniadau'r trefniadau asesu, er enghraifft, ddangos nad yw'r cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd priodol ac felly fod angen ei ddiwygio er mwyn ymdrin â hyn).
33. Os yw'r darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir wedi mabwysiadu'r cwricwlwm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13, a bod Gweinidogion Cymru yn diwygio'r cwricwlwm hwnnw, rhaid i'r darparwr ystyried pa un ai i ddiwygio ei gwricwlwm mabwysiedig er mwyn adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Adran 17 – Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch mabwysiadu a diwygio cwricwlwm

34. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch materion gweithdrefnol penodol, gan gynnwys y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid mabwysiadu cwricwlwm.

Adran 18 – Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch crynodebau cwricwlwm

35. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch yr hyn sydd i'w gynnwys mewn crynodeb o gwricwlwm mabwysiedig, ac ynghylch ei gyhoeddi.

Pennod 2 – Gofynion Cwricwlwm

Adran 19 – Cyflwyniad

36. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys Pennod 2 ac yn pennu ei bod yn gymwys i gwricwlwm:
 - i ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol;
 - i ddisgyblion mewn ysgol feithrin a gynhelir;
 - i blant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.

Sections 15 and 16 – Curriculum adoption, review and revision

29. Section 15 requires an FNNE provider to adopt a curriculum and publish a summary of it. The adopted curriculum must meet the requirements in Chapter 2 of Part 2.
30. The curriculum adopted by the FNNE provider may be that published by the Welsh Ministers under section 13 or another suitable curriculum.
31. Section 16 requires an FNNE provider to keep their adopted curriculum under review. They must ensure that it continues to comply with the requirements mentioned above, if necessary by revising it.
32. In considering whether the adopted curriculum continues to comply with those requirements, the FNNE provider must consider what has been shown by any assessment arrangements made by them under the Act. (The results of the assessment arrangements might, for instance, indicate that the curriculum is not making provision for appropriate progression and so needs to be revised to deal with this).
33. If the FNNE provider has adopted the curriculum published by the Welsh Ministers under section 13, and the Welsh Ministers revise that curriculum, the provider must consider whether to revise their adopted curriculum to reflect the revisions made by the Welsh Ministers.

Section 17 – Power to make supplementary provision about curriculum adoption and revision

34. This section enables the Welsh Ministers to make regulations about certain procedural matters, including the date by which a curriculum must be adopted.

Section 18 – Power to make supplementary provision about curriculum summaries

35. This section enables the Welsh Ministers to make regulations about what is to be included in a summary of an adopted curriculum, and about its publication.

Chapter 2 – Curriculum Requirements

Section 19 - Introduction

36. This section describes the contents of Chapter 2 and specifies that it applies to a curriculum for:
 - pupils at a maintained school who are under compulsory school age;
 - pupils at a maintained nursery school;
 - children for whom FNNE is provided.

37. Mae hyn yn golygu nad yw Pennod 2 yn gymwys i gwricwlwm ar gyfer addysg ac eithrio yn yr ysgol, gan gynnwys UCDAu, nac i gwricwlwm i ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir sydd dros yr oedran ysgol gorfodol.

Adrannau 20 i 24 - Gofynion cwricwlwm

38. Mae'r adrannau hyn yn nodi'r gofynion y mae rhaid i gwricwlwm eu bodloni ar gyfer ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, neu ar gyfer addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir. Ni chaniateir mabwysiadu cwricwlwm oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, fel y'u trafodir uchod.
39. Rhaid i gwricwlwm:
- alluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben (adran 20);
 - darparu ar gyfer cynnydd priodol i ddisgyblion i ddisgyblion a phlant (adran 21);
 - bod yn addas i ddisgyblion a phlant o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol (adran 22);
 - bod yn eang ac yn gytbwys (adran 23);
 - darparu ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad (gan gynnwys yr elfennau mandadol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad) ac sy'n datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol (adran 24).
40. Mae adran 24 hefyd yn gosod gofyniad pellach sy'n gymwys mewn perthynas â chwricwlwm i ddisgyblion dros 14 oed ond o dan yr oedran ysgol gorfodol (blynyddoedd 10 ac 11). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm i'r disgyblion hynny gynnig iddynt ddewis o addysgu a dysgu o fewn pob maes dysgu a phrofiad. Mae'r gofyniad hwn yn adlewyrchu anghenion gwahanol y grŵp oedran hwn. Bydd gan ysgolion yr hyblygrwydd i ddatblygu eu pecyn eu hunain o ddewisiadau i'r disgyblion hyn, a gaiff gynnwys cyrsiau astudio neu ddysgu arall.
41. Mae adran 24(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu ACRh fod yn briodol yn ddatblygiadol.
42. Mae adran 24(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu CGM gyd-fynd â Rhan 1 o Atodlen 1. Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys i gwricwlwm:
- i ddisgyblion sydd mewn dosbarth y mae'r rhan fwyaf ynddo yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol; neu
 - i blant sy'n cael addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.

Adran 25 - Pŵer i osod gofynion pellach cwricwlwm

43. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion ychwanegol cwricwlwm mewn perthynas â disgyblion 14-16 oed (Blynyddoedd 10 - 11).

37. This means that Chapter 2 does not apply to a curriculum for EOTAS, including PRUS, or to a curriculum for pupils at a maintained school who are over compulsory school age.

Sections 20 to 24 - Curriculum requirements

38. These sections set out the requirements that must be met by a curriculum for a maintained school or a maintained nursery school, or for FNNE. A curriculum cannot be adopted unless it complies with these requirements, as discussed above.
39. A curriculum must:
- enable pupils and children to develop in the ways described in the four purposes (section 20);
 - provide for appropriate progression for pupils and children (section 21);
 - be suitable for pupils and children of differing ages, abilities and aptitudes (section 22);
 - be broad and balanced (section 23);
- provide for teaching and learning which encompasses each of the areas of learning and experience (including the mandatory elements within the areas of learning and experience) and develops mandatory cross-curricular skills (section 24).
40. Section 24 also imposes a further requirement that applies in relation to a curriculum for pupils aged over 14 but under compulsory school age (years 10 and 11). It requires the curriculum for those pupils to offer them a choice of teaching and learning within each area of learning and experience. This requirement reflects the different needs of this age group. Schools will have the flexibility to develop their own package of choices for these pupils, which may include courses of study or other learning.
41. Section 24(2) requires the provision in the curriculum for teaching and learning encompassing RSE to be developmentally appropriate.
42. Section 24(3) requires the provision in the curriculum for teaching and learning encompassing RVE to accord with Part 1 of Schedule 1. But this requirement does not apply to a curriculum for:
- pupils who are in a class in which the majority are below compulsory school age at the beginning of the school year; or
 - children receiving FNNE.

Section 25 – Power to impose further curriculum requirements

43. This section enables the Welsh Ministers to make regulations that impose additional curriculum requirements in relation to pupils aged 14-16 (Years 10 – 11).

Pennod 3 – Gweithredu Cwricwlwm

Adran 26 – Cyflwyniad a dehongli

44. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys Pennod 3 ac yn pennu ei bod yn gymwys i gwricwlwm:
- i ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol;
 - i ddisgyblion mewn ysgol feithrin a gynhelir;
 - i blant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.
45. Mae hyn yn golygu nad yw Pennod 3 yn gymwys i gwricwlwm ar gyfer addysg ac eithrio yn yr ysgol, gan gynnwys UC'Dau, nac i gwricwlwm i ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir sydd dros yr oedran ysgol gorfodol.
46. Mewn termau cyffredinol, mae'r Bennod hon yn nodi gofynion sy'n ymwneud â'r ffordd y mae cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei roi ar waith mewn ysgol neu leoliad addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.

Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir

Adran 27 – Dyletswydd i sicrhau gweithrediad y cwricwlwm mabwysiedig

47. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei weithredu yn unol ag adrannau 28, 29 a 30. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei weithredu yn y ffordd honno. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gofynion hyn yn adlewyrchu rolau gwahanol y pennaeth a'r corff llywodraethu.

Adran 28 – Gofynion gweithredu cyffredinol

48. Mae'r adran hon yn nodi gofynion cyffredinol ynghylch y ffordd y mae rhaid gweithredu cwricwlwm mabwysiedig ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir.

Adran 29 – Gofynion gweithredu pellach ar gyfer disgyblion 3 i 14 oed

49. Mae'r adran hon yn nodi gofynion ychwanegol sy'n gymwys wrth weithredu cwricwlwm mabwysiedig ar gyfer y grŵp oedran 3-14 oed (o dan Flwyddyn 10 yn yr ysgol). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm gael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad, gan gynnwys yr elfennau mandadol. Wedi ei gymryd ar y cyd ag adran 6, yr effaith yw bod rhaid i'r addysgu a dysgu a ddarperir ar gyfer pob disgybl gwmpasu'r cysyniadau allweddol a nodir ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig.
50. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm mabwysiedig gael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.
51. Mae adran 29(3)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol ACRh fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r disgybl.

Chapter 3 – Curriculum Implementation

Section 26 – Introduction and interpretation

44. This section describes the contents of Chapter 3 and specifies that it applies to a curriculum for:
- pupils at a maintained school who are under compulsory school age;
 - pupils at a maintained nursery school;
 - children for whom FNNE is provided.
45. This means that Chapter 3 does not apply to a curriculum for EOTAS, including PRUS, or to a curriculum for pupils at a maintained school who are over compulsory school age.
46. In general terms, this Chapter sets out requirements that relate to the way in which an adopted curriculum is put into practice in a school or FNNE setting.

Maintained schools and maintained nursery schools

Section 27 – Duty to ensure implementation of adopted curriculum

47. This section requires the head teacher of a maintained school or maintained nursery school to ensure that the adopted curriculum is implemented in accordance with sections 28, 29 and 30. It also requires the governing body to exercise its functions with a view to ensuring that the adopted curriculum is implemented in that way. The difference between these requirements reflects the different roles of the head teacher and governing body.

Section 28 – General implementation requirements

48. This section sets out general requirements regarding the way in which an adopted curriculum must be implemented for pupils at maintained schools and maintained nursery schools.

Section 29 – Further implementation requirements for pupils aged 3 to 14

49. This section sets out additional requirements that apply when implementing an adopted curriculum for the 3-14 year old age group (below Year 10 in school). It requires the curriculum to be implemented in a way that secures teaching and learning for each pupil that encompasses the areas of learning and experience, including the mandatory elements. Taken with section 6, the effect is that the teaching and learning provided for each pupil must encompass the key concepts set out for each area of learning and experience in the What Matters Code.
50. This section also requires the adopted curriculum to be implemented in a way that secures teaching and learning for each pupil that develops the mandatory cross-curricular skills.
51. Section 29(3)(a) requires teaching and learning in respect of the mandatory element of RSE to be suitable for the pupil's stage of development.

52. Mae adran 29(3)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol CGM gyd-fynd â Rhan 2 o Atodlen 1. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys i addysgu a dysgu i ddisgyblion sydd mewn dosbarth y mae'r rhan fwyaf ynddo yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.

Adran 30 – Gofynion gweithredu pellach ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed

53. Mae'r adran hon yn nodi gofynion ychwanegol sy'n gymwys wrth weithredu cwricwlwm mabwysiedig i ddisgyblion 14-16 oed (Blynnyddoedd 10 ac 11 yn yr ysgol).
54. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm gael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl sy'n cwmpasu'r elfennau mandadol.
55. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm gael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau rhywfaint o addysgu a dysgu arall i bob disgybl ym mhob maes dysgu a phrofiad. Felly, er enghraifft, bydd angen i'r cwricwlwm gael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau rhywfaint o addysgu a dysgu ychwanegol i bob disgybl, yn y maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, yn ogystal ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfennau mandadol Cymraeg a Saesneg. Ond yn achos y grŵp oedran hwn, yn annhebyg i'r grŵp oedran iau yr ymdrinnir ag ef yn adran 29, nid oes gofyniad i sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl sy'n "cwmpasu" pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad.
56. Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrhau i bob disgybl ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol. Rhaid iddo hefyd gynnwys yr addysgu a dysgu a ddewisir gan y disgybl yn rhinwedd adran 24 (ond gweler adran 31) ac unrhyw addysgu a dysgu sy'n ofynnol yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adran 25.
57. Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrhau i ddisgybl mewn cysylltiad ag elfen fandadol ACRh fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r disgybl. Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrhau i ddisgybl mewn cysylltiad ag elfen fandadol CGM fod yn unol â Rhan 2 o Atodlen 1.

Adran 31 – Pŵer i ddatgymhwyso dyletswydd i weithredu dewis disgybl

58. Fel y'i disgrifir uchod, mae'n ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir weithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd sy'n rhoi effaith i'r dewisiadau a wneir gan ddisgybl 14 i 16 oed yn rhinwedd adran 24. Mae adran 31 yn rhoi pŵer i'r pennaeth i ddatgymhwyso'r ddyletswydd hon, mewn perthynas â dewis disgybl penodol, drwy wneud penderfyniad.

52. Section 29(3)(b) requires teaching and learning in respect of the mandatory element of RVE to accord with Part 2 of Schedule 1. However, this requirement does not apply to teaching and learning for pupils who are in a class in which the majority are below compulsory school age at the beginning of the school year.

Section 30 – Further implementation requirements for pupils aged 14 to 16

53. This section sets out additional requirements that apply when implementing an adopted curriculum for pupils aged between 14 – 16 (Years 10 and 11 in school).
54. It requires the curriculum to be implemented in a way that secures teaching and learning for each pupil that encompasses the mandatory elements.
55. It also requires the curriculum to be implemented in a way that secures some other teaching and learning for each pupil in each area of learning and experience. So, for example, the curriculum will need to be implemented in a way that secures some additional teaching and learning for each pupil, in the Languages, Literacy and Communication area of learning and experience, as well teaching and learning in respect of the mandatory elements of English and Welsh. But in the case of this age group, unlike the younger age group dealt with in section 29, there is no requirement to secure teaching and learning for each pupil that “encompasses” each of the areas of learning and experience.
56. The teaching and learning secured for each pupil must develop the mandatory cross-curricular skills. It must also include the teaching and learning chosen by the pupil by virtue of section 24 (but see section 31) and any teaching and learning required by virtue of regulations made under section 25.
57. The teaching and learning secured for a pupil in respect of the mandatory element of RSE must be suitable for the pupil’s stage of development. The teaching and learning secured for a pupil in respect of the mandatory element of RVE must be in accordance with Part 2 of Schedule 1.

Section 31 – Power to disapply duty to implement pupil choice

58. As described above, the head teacher of a maintained school is required to implement the adopted curriculum in a way that gives effect the choices made by a pupil aged 14 to 16 by virtue of section 24. Section 31 gives the head teacher power to disapply this duty, in relation to a particular pupil’s choice, by making a determination.

59. Mae is-adrannau (3) a (4) yn pennu'r seiliau y caiff pennaeth wneud penderfyniad arnynt:
- Mae'r seiliau a bennir yn is-adran (3) yn gymwys pan fo'r penderfyniad i'w wneud cyn i'r disgybl ddechrau'r flwyddyn ysgol y bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 15 oed ynddi (h.y. cyn i'r disgybl ddechrau blwyddyn 10).
 - Mae'r seiliau a bennir yn is-adran (4) yn gymwys pan fo'r penderfyniad i'w wneud ar ddyddiad diweddarach. Mae'r seiliau hyn yn fwy cyfyngedig, gan fod effaith datgymhwyso dewis disgybl yn fwy pan fo'r disgybl eisoes wedi dechrau ar yr addysgu a dysgu a ddewiswyd.
60. Mae is-adran (6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio'r seiliau y caniateir gwneud penderfyniad arnynt.
61. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud o dan yr adran hon, bydd y pennaeth yn parhau i fod o dan ddyletswydd i ddarparu i'r disgybl yr addysgu a dysgu a bennir yn adran 30(2). Hynny yw, bydd rhaid i'r pennaeth sicrhau bod addysgu a dysgu yn cael ei sicrhau i'r disgybl ym mhob maes dysgu a phrofiad, yn ychwanegol at yr addysgu a dysgu mewn cysylltiad â'r elfennau mandadol. Ond ni fydd angen cynnig dewis pellach o addysgu a dysgu i'r disgybl.

Adran 32 – Pŵer i ddatgymhwyso dyletswydd i weithredu dewis disgybl: atodol

62. Mae'r adran hon yn gosod gofyniad i ddarparu gwybodaeth benodol i'r disgybl a rhiant y disgybl pan fo penderfyniad wedi ei wneud o dan adran 31 i beidio â darparu dewis y disgybl o addysgu a dysgu.
63. Nid oes dyletswydd i ddarparu'r wybodaeth hon i'r disgybl os yw'r pennaeth yn ystyried nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall yr wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi neu'r hyn y byddai'n ei olygu i arfer yr hawl i apelio yn adran 33.
64. Yn ychwanegol, mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach mewn rheoliadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir o dan adran 31.

Adran 33 – Adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â dewis disgybl

65. Mae'r adran hon yn galluogi disgybl, neu riant i ddisgybl, y rhoddir gwybodaeth iddo am benderfyniad a wneir o dan adran 31 i'w gwneud yn ofynnol i'r pennaeth adolygu'r penderfyniad hwnnw. Os yw adolygiad yn ofynnol, rhaid i'r pennaeth naill ai cadarnhau, amrywio neu ddirymu (h.y. tynnu'n ôl) y penderfyniad, a rhaid iddo roi hysbysiad o'r penderfyniad i'r disgybl a rhiant y disgybl.
66. Os yw'r disgybl neu'r rhiant yn anfodlon ar ganlyniad yr adolygiad, caiff y disgybl neu riant y disgybl apelio i gorff llywodraethu'r ysgol.
67. Os gwneir apêl, rhaid i'r corff llywodraethu naill ai cadarnhau, amrywio neu ddirymu (h.y. tynnu'n ôl) penderfyniad y pennaeth, a rhaid iddo roi hysbysiad o'i benderfyniad i'r disgybl a rhiant y disgybl.

59. Subsections (3) and (4) specify the grounds on which a head teacher may make a determination:
- The grounds specified in subsection (3) apply where the determination is to be made before the pupil starts the school year in which the majority of pupils in the class will reach the age of 15 (i.e. before the pupil starts year 10).
 - The grounds specified in subsection (4) apply where the determination is to be made at a later date. These grounds are more limited, as the impact of disapplying pupil choice is greater where the pupil has already embarked on the chosen teaching and learning.
60. Subsection (6) enables the Welsh Ministers to make regulations to amend the grounds on which a determination may be made.
61. Where a determination is made under this section, the head teacher will remain under a duty to provide the pupil with the teaching and learning specified in section 30(2). That is to say, the head teacher will have to ensure that teaching and learning is secured for the pupil in each area of learning and experience, in addition to the teaching and learning in respect of the mandatory elements. But a further choice of teaching and learning will not need to be offered to the pupil.

Section 32 - Power to disapply duty to implement pupil choice: supplementary

62. This section imposes a requirement to provide certain information to the pupil and the pupil's parent where a determination has been made under section 31 not to provide the pupil's choice of teaching and learning.
63. There is no duty to provide this information to the pupil if the head teacher considers that the pupil does not have the capacity to understand the information that would be given or what it would mean to exercise the appeal right in section 33.
64. In addition, this section gives the Welsh Ministers power to make further provision in regulations in connection with determinations made under section 31.

Section 33 – Reviews and appeals relating to pupil choice

65. This section enables a pupil, or parent of a pupil, who is given information about a determination made under section 31 to require the head teacher to review that determination. If a review is required, the head teacher must either confirm, vary or revoke (i.e. withdraw) the determination, and must give notice of the decision to the pupil and the pupil's parent.
66. If the pupil or parent is unhappy with the outcome of the review, the pupil or the pupil's parent may appeal to the school's governing body.
67. If an appeal is made, the governing body must either confirm, vary or revoke (i.e. withdraw) the head teacher's decision, and must give notice of its decision to the pupil and the pupil's parent.

68. Nid oes dyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r disgybl am ganlyniad adolygiad neu apêl os yw'r penderfynwr yn ystyried nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall yr wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi neu (yn achos penderfyniad ar adolygiad) yr hyn y byddai'n ei olygu i arfer yr hawl i apelio.

Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir

Adran 34 - Dyletswydd i sicrhau gweithrediad y cwricwlwm mabwysiedig

69. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr addysg a gyllidir ond nas cynhelir sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei weithredu yn unol ag adrannau 35 ac 36. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n sicrhau addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig ar gyfer yr addysg feithrin honno yn cael ei weithredu yn y ffordd honno. Gallai awdurdod lleol, er enghraifft, gydymffurfio â'r ddyletswydd hon drwy ei drefniadau contractiol â'i ddarparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.

Adran 35 - Gofynion gweithredu cyffredinol

70. Mae'r adran hon yn nodi gofynion cyffredinol ynghylch y ffordd y mae rhaid i gwricwlwm mabwysiedig gael ei weithredu ar gyfer plant sy'n cael addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.

Adran 36 - Gofynion sy'n ymwneud â meysydd dysgu a phrofiad a sgiliau trawsgwricwlaidd

71. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm mabwysiedig gael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob plentyn sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad, gan gynnwys yr elfennau mandadol. Wedi ei gymryd ar y cyd ag adran 6, yr effaith yw bod rhaid i'r addysgu a dysgu a ddarperir ar gyfer pob plentyn gwmpasu'r cysyniadau allweddol a nodir ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig.
72. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm mabwysiedig gael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob plentyn sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.
73. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i addysgu a dysgu i blentyn mewn cysylltiad ag elfen fandadol ACRh fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r plentyn.

Pennod 4 - Gweithredu Cwricwlwm: Eithriadau

Adran 37 - Cyflwyniad

74. Mae adran 37 yn esbonio bod Pennod 4 yn nodi eithriadau i'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm ym Mhennod 3.

Adran 38 - Gwaith datblygu ac arbrofion

75. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i ysgolion a meithrinfeydd a gyllidir ond nas cynhelir i'w galluogi i gymryd rhan mewn gwaith datblygu neu arbrofion.

68. There is no duty to provide information to the pupil about the outcome of a review or appeal if the decision maker considers that the pupil does not have the capacity to understand the information that would be given or (in the case of a decision on a review) what it would mean to exercise the right to appeal.

Funded non-maintained nursery education

Section 34 – Duty to ensure the implementation of adopted curriculum

69. This section requires an FNNE provider to ensure that the adopted curriculum is implemented in accordance with sections 35 and 36. It also requires a local authority that secures FNNE to exercise its functions with a view to ensuring that the adopted curriculum for that FNNE is implemented in that way. A local authority might, for instance, comply with this duty by means of its contractual arrangements with its FNNE providers.

Section 35 – General implementation requirements

70. This section sets out general requirements regarding the way in which an adopted curriculum must be implemented for children receiving FNNE.

Section 36 – Requirements related to areas of learning and experience and cross-curricular skills

71. This section requires the adopted curriculum to be implemented in a way that secures teaching and learning for each child that encompasses the areas of learning and experience, including the mandatory elements. Taken with section 6, the effect is that the teaching and learning provided for each child must encompass the key concepts set out for each area of learning and experience in the What Matters Code.
72. This section also requires the adopted curriculum to be implemented in a way that secures teaching and learning for each child that develops the mandatory cross-curricular skills.
73. Subsection (2) requires teaching and learning for a child in respect of the mandatory element of RSE to be suitable for the child's stage of development.

Chapter 4 – Curriculum Implementation: Exceptions

Section 37 – Introduction

74. Section 37 explains that Chapter 4 sets out exceptions to the curriculum implementation duties in Chapter 3.

Section 38 – Development work and experiments

75. This section enables the Welsh Ministers to give a direction to schools and funded non-maintained nurseries in order to enable them to participate in development work or experiments.

76. Caiff cyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon addasu neu ddatgymhwyso rhai neu bob un o'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm yn adrannau 27, 28, 29 a 30 (mewn perthynas ag ysgolion) ac adrannau 34, 35 ac 36 (mewn perthynas â meithrinfeydd a gyllidir ond nas cynhelir) am gyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd, fel y gall y gwaith datblygu neu'r arbrawf ddigwydd. Gellid defnyddio cyfarwyddyd, felly, er enghraifft, i ganiatáu i ysgolion gymryd rhan mewn cynllun peilot ar gyfer maes dysgu a phrofiad newydd arfaethedig.

Adran 39 – Gwaith datblygu ac arbrofion: amodau

77. Mae'r adran hon yn pennu amodau y mae rhaid eu bodloni er mwyn i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 38.
78. Bwriedir i'r amod a bennir yn is-adran (2) sicrhau bod disgyblion neu blant y mae'r cyfarwyddyd yn effeithio arnynt yn parhau i gael cwricwlwm addas.

Adran 40 – Gwaith datblygu ac arbrofion: atodol

79. Mae'r adran hon yn nodi gofynion atodol mewn perthynas â chyfarwyddydau a roddir o dan adran 38.
80. Pan fo cyfarwyddyd wedi ei roi mewn perthynas ag ysgol, neu mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, mae is-adrannau (4) a (5) yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol, neu ddarparwr yr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm a gaiff ei weithredu o ganlyniad i'r cyfarwyddyd. Mae'r is-adrannau hyn hefyd yn addasu'r dyletswyddau a osodir gan adrannau 12 ac 16 mewn cysylltiad ag adolygu a diwygio cwricwlwm mabwysiedig, fel nad ydynt ond yn gymwys i'r graddau sy'n gydnaws â'r cyfarwyddyd.

Adran 41 – Disgyblion a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol

81. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm ym Mhennod 3 gael eu datgymhwyso neu eu haddasu mewn perthynas â disgyblion neu blant ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY").
82. Mae is-adran (1) yn caniatáu i Gynlluniau Datblygu Unigol ("CDUau") a lunnir ar gyfer disgybl neu blentyn o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gynnwys darpariaeth sy'n datgymhwyso neu'n addasu rhai neu bob un o'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm ym Mhennod 3. Llunnir y cynlluniau hynny gan awdurdodau lleol yng Nghymru.
83. Mae is-adran (2) yn caniatáu i Gynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal ("Cynlluniau AIG") a lunnir ar gyfer disgybl neu blentyn o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 gynnwys darpariaeth debyg. Llunnir cynlluniau AIG gan awdurdodau lleol yn Lloegr, ond efallai y bydd angen iddynt gynnwys darpariaeth o'r math hwn os yw disgybl neu blentyn sy'n preswyllo fel arfer yn Lloegr yn mynychu lleoliad addysgol yng Nghymru.

76. A direction given under this section may modify or disapply some or all of the curriculum implementation duties in sections 27, 28, 29 and 30 (in relation to schools) and sections 34, 35 and 36 (in relation to funded non-maintained nurseries) for a period specified in the direction, so that the development work or experiment can take place. A direction could therefore be used, for example, to allow schools to take part in a pilot for a proposed new area of learning and experience.

Section 39 – Development work and experiments: conditions

77. This section specifies conditions that must be met in order for the Welsh Ministers to give a direction under section 38.
78. The condition specified in subsection (2) is intended to ensure that pupils or children affected by the direction continue to receive a suitable curriculum.

Section 40 – Development work and experiments: supplementary

79. This section sets out supplementary requirements in relation to directions given under section 38.
80. Where a direction is given in relation to a school, or in relation to FNNE, subsections (4) and (5) require the head teacher and governing body of the school, or the provider of the FNNE, to publish a summary of the curriculum that will be implemented as a result of the direction. These subsections also modify the duties imposed by sections 12 and 16 in respect of review and revision of an adopted curriculum, so that they apply only to the extent that is compatible with the direction.

Section 41 – Pupil and children with additional learning needs

81. This section allows the curriculum implementation duties in Chapter 3 to be disappplied or modified in relation to pupils or children with additional learning needs (“ALN”).
82. Subsection (1) allows individual Development Plans (“IDPs”) prepared for a pupil or child under the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 to include provision that disappplies or modifies some or all of the curriculum implementation duties in Chapter 3. Such plans are prepared by local authorities in Wales.
83. Subsection (2) allows Education, Health and Care Plans (“EHCs”) prepared for a pupil or child under the Children and Families Act 2014 to include similar provision. EHC plans are prepared by local authorities in England, but they may need to include provision of this kind if a pupil or child who is ordinarily resident in England attends an educational setting in Wales.

84. Mae is-adran (3) yn gosod cyfyngiad ar bwerau awdurdodau lleol i ddatgymhwyso neu addasu dyletswyddau gweithredu cwricwlwm drwy ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys mewn CDUau neu gynlluniau AIG. Nid yw'n caniatáu i CDUau neu gynlluniau AIG gynnwys darpariaeth o'r math hwn ond os yw'r amodau yn yr is-adran honno wedi eu bodloni. Nod yr amodau hyn yw sicrhau y bydd y disgyblion a'r plant y mae eu CDUau neu eu cynlluniau AIG yn cynnwys y ddarpariaeth honno yn parhau i gael cwricwlwm addas.
85. Mae is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu amodau pellach y mae rhaid eu bodloni cyn y gall CDU neu gynllun AIG gynnwys darpariaeth o'r math a grybwyllir yn is-adrannau (1) a (2).

Adran 42 – Eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion a phlant unigol

86. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i bennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir benderfynu bod rhai neu bob un o'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm ym Mhennod 3 i'w datgymhwyso neu eu haddasu dros dro mewn perthynas â disgybl unigol.
87. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir benderfynu bod rhai neu bob un o'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm ym Mhennod 3 i'w datgymhwyso neu eu haddasu dros dro mewn perthynas â phlentyn unigol.
88. Rhaid i'r rheoliadau ddarparu na chaiff person wneud penderfyniad ond os yw'r person wedi ei fodloni y bydd y cwricwlwm a gaiff ei ddarparu ar gyfer y disgybl neu'r plentyn yn cydymffurfio â'r gofynion yn is-adran (3). Bwriedir i'r gofynion hyn sicrhau y bydd y cwricwlwm a gaiff ei ddarparu yn un addas.
89. Mae is-adran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy reoliadau, amodau pellach y mae rhaid eu bodloni cyn y caniateir i benderfyniad gael ei wneud.

Adran 43 – Eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion a phlant unigol: atodol

90. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch rheoliadau o dan adran 42.
91. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff rheoliadau o'r fath ganiatáu i benderfyniad gael ei wneud ar y sail bod gan ddisgybl neu blentyn, neu y gall fod ganddo, anghenion dysgu ychwanegol. Os yw unrhyw ddyletswyddau gweithredu cwricwlwm i'w datgymhwyso neu eu haddasu ar sail anghenion dysgu ychwanegol disgybl neu blentyn, y cam gweithredu priodol yw cynnwys darpariaeth i'r perwyl hwnnw yn y cynlluniau datblygu unigol neu'r cynlluniau AIG (gweler adran 41).
92. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau sicrhau nad yw cyfnod gweithredol penderfyniad yn hwy na 6 mis. Fodd bynnag, caiff y rheoliadau ganiatáu i benderfyniadau olynol gael cyfnod gweithredol cyfunol o hwy na 6 mis.

84. Subsection (3) places a restriction on local authorities' powers to disapply or modify curriculum implementation duties by means of provision included in IDPs or EHCs. It only allows IDPs or EHC to include provision of this kind if the conditions in that subsection are satisfied. These conditions aim to ensure that the pupils and children whose IDPs or EHCs include such provision will continue to receive a suitable curriculum.
85. Subsection (4) allows the Welsh Ministers to make regulations specifying further conditions that must be satisfied before an IDP or EHC may include provision of the kind mentioned in subsections (1) and (2).

Section 42 – Temporary exceptions for individual pupils and children

86. This section enables the Welsh Ministers to make regulations allowing the head teacher of a maintained school or maintained nursery school to determine that some or all of the curriculum implementation duties in Chapter 3 are to be temporarily disapplied or modified in relation to an individual pupil.
87. It also enables the Welsh Ministers to make regulations allowing an FNNE provider to determine that some or all of the curriculum implementation duties in Chapter 3 are to be temporarily disapplied or modified in relation to an individual child.
88. The regulations must provide that a person may make a determination only if the person is satisfied that the curriculum that will be provided for the pupil or child will comply with the requirements in subsection (3). These requirements are intended to ensure that the curriculum that will be provided will be a suitable one.
89. Subsection (4) enables the Welsh Ministers to specify, by regulations, further conditions that must be met before a determination may be made.

Section 43 – Temporary exceptions for individual pupils and children: supplementary

90. This section makes further provision about regulations under section 42.
91. Subsection (2) provides that such regulations must not allow a determination to be made on the grounds that a pupil or child has, or may have, additional learning needs. If any curriculum implementation duties are to be disapplied or modified on the grounds of a pupil or child's additional learning needs, the appropriate course of action is to include provision to that effect in the individual development plans or EHC (see section 41).
92. Subsection (3) requires the regulations to ensure that the operative period of a determination does not exceed 6 months. However, the regulations may allow consecutive determinations to have a combined operative period of more than 6 months.

Adran 44 – Darparu gwybodaeth am eithriadau dros dro

93. Mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu gan bennaeth neu ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir sy'n gwneud, yn amrywio neu'n dirymu penderfyniad o dan reoliadau a wneir o dan adran 42. Mae hefyd yn rhestru'r personau y mae rhaid darparu'r wybodaeth honno iddynt.
94. Rhaid i bennaeth ddarparu'r wybodaeth a nodir yn is-adran (3) (ac, os yw'n briodol, yr wybodaeth a nodir yn is-adran (4)) i'r disgybl y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef, rhiant y disgybl, corff llywodraethu'r ysgol, a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol. Fodd bynnag, mae is-adran (5) yn datgymhwysu'r ddyletswydd i gyflenwi gwybodaeth i'r disgybl pan fo'r pennaeth yn ystyried nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall yr wybodaeth, neu'r hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawl i apelio a roddir gan adran 45.
95. Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ddarparu'r wybodaeth a nodir yn is-adran (3) (ac, os yw'n briodol, yr wybodaeth a nodir yn is-adran (4)) i riant y plentyn y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef, ac i'r awdurdod lleol sy'n sicrhau'r addysg honno.

Adran 45 – Apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol

96. Mae'r adran hon yn galluogi disgybl, neu riant y disgybl, i apelio i gorff llywodraethu'r ysgol pan fo'r pennaeth yn gwneud, yn dirymu neu'n amrywio penderfyniad sy'n ymwneud â'r disgybl o dan reoliadau a wneir o dan adran 42. Mae hefyd yn caniatáu i'r disgybl, neu riant y disgybl, ddwyn apêl pan fônt wedi gofyn i'r pennaeth wneud penderfyniad o dan y rheoliadau hynny ond na fo penderfyniad wedi ei wneud (er enghraifft, am fod y pennaeth wedi gwrthod gwneud y penderfyniad neu nad yw wedi ymateb i'r cais).
97. Fodd bynnag, ni chaiff y disgybl apelio os yw'r corff llywodraethu yn ystyried nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i ddwyn apêl.
98. Os yw apêl yn cael ei gwneud, caiff y corff llywodraethu gadarnhau penderfyniad y pennaeth neu gyfarwyddo'r pennaeth i gymryd y camau gweithredu y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Rhaid iddo hefyd hysbysu'r disgybl a rhiant y disgybl am ei benderfyniad, oni bai ei fod yn ystyried nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall yr wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi.
99. Mae'r adran yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach, drwy reoliadau, mewn cysylltiad â'r apelau hyn.

Adran 46 – Apelau am eithriadau dros dro ar gyfer plant unigol

100. Mae'r adran hon yn galluogi'r rhiant i blentyn y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar ei gyfer i apelio i'r awdurdod lleol sy'n sicrhau'r addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir os yw'r darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir yn gwneud, yn dirymu neu'n amrywio penderfyniad sy'n ymwneud â'r plentyn o dan reoliadau a wneir o dan adran 42. Mae hefyd yn caniatáu i riant y plentyn ddwyn apêl pan fo wedi gofyn i'r darparwr wneud penderfyniad o dan y rheoliadau hynny ond na fo penderfyniad wedi ei wneud.

Section 44 – Provision of information about temporary exceptions

93. This section sets out the information that must be provided by a head teacher or FNNE provider who makes, varies or revokes a determination under regulations made under section 42. It also lists the persons to whom that information must be provided.
94. A head teacher must provide the information set out in subsection (3) (and, if appropriate, the information set out in subsection (4)) to the pupil to whom the determination relates, the pupil's parent, the governing body of the school, and the local authority that maintains the school. However, subsection (5) disapplies the duty to supply information to the pupil where the head teacher considers that the pupil lacks capacity to understand the information, or what it means to exercise the right of appeal conferred by section 45.
95. A FNNE provider must provide the information set out in subsection (3) (and, if appropriate, the information set out in subsection (4)) to the parent of the child to whom the determination relates, and to the local authority that secures that education.

Section 45 - Appeals about temporary exceptions for individual pupils

96. This section enables a pupil, or the pupil's parent, to appeal to the school's governing body where the head teacher makes, revokes or varies a determination relating to the pupil under regulations made under section 42. It also allows the pupil, or the pupil's parent, to bring an appeal where they have asked the head teacher to make a determination under those regulations but no determination has been made (for instance, because the head teacher has refused to make the determination or has not responded to the request).
97. However, the pupil may not appeal if the governing body considers that the pupil does not have the capacity to understand what it means to bring an appeal.
98. If an appeal is made, the governing body may confirm the head teacher's decision or direct the head teacher to take the action that it considers appropriate. It must also inform the pupil and the pupil's parent about its decision, unless it considers that the pupil does not have the capacity to understand the information that would be given.
99. The section enables the Welsh Ministers to make further provision, by regulations, in connection with these appeals.

Section 46 - Appeals about temporary exceptions for individual children

100. This section enables the parent of a child for whom FNNE is provided to appeal to the local authority that secures the FNNE if the FNNE provider makes, revokes or varies a determination relating to the child under regulations made under section 42. It also allows the child's parent to bring an appeal where they have asked the FNNE provider to make a determination under those regulations but no determination has been made.

101. Os yw apêl yn cael ei gwneud, caiff yr awdurdod lleol gadarnhau penderfyniad y darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir neu gyfarwyddo'r darparwr i gymryd y camau gweithredu y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Rhaid iddo hefyd hysbysu rhiant y disgybl am ei benderfyniad.
102. Mae'r adran yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach, drwy reoliadau, mewn cysylltiad â'r apelau hyn.

Adran 47 - Eithriad ar gyfer disgyblion y mae trefniadau wedi eu gwneud ar eu cyfer o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996

103. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn glir nad yw'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm yn adrannau 27, 28, 29 a 30 yn gymwys i ddisgyblion y gwneir trefniadau iddynt o dan adran 19A o Ddeddf 1996 (disgyblion sy'n cael addysg ac eithrio yn yr ysgol, gan gynnwys mewn UCDAu).

Adran 48 - Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau pellach

104. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu achosion neu amgylchiadau ychwanegol pan ganiateir i rai neu bob un o'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm yn adrannau 27, 28, 29 a 30, neu yn adrannau 34, 35 ac 36, gael eu datgymhwyso neu eu haddasu.
105. Mae is-adran (2) yn caniatáu i'r rheoliadau roi disgrisiwn i berson i benderfynu a ddylid datgymhwyso neu addasu rhai neu bob un o'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm mewn achosion neu o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau. Felly, gallai'r rheoliadau, er enghraifft, ganiatáu i bennaethiaid benderfynu a ddylid datgymhwyso dyletswyddau gweithredu cwricwlwm penodol mewn perthynas â disgyblion y mae darpariaeth allanol wedi ei chomisiynu iddynt (h.y. darpariaeth nas darperir gan yr ysgol).

RHAN 3 - CWRICWLWM AR GYFER DARPARIAETH EITHRIADOL O ADDYSG MEWN UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION NEU MEWN MANNAU ERAILL

Adran 49 - Cyflwyniad

106. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys Rhan 3. Mae'r Rhan yn gwneud darpariaeth ynghylch y cwricwlwm ar gyfer addysg a ddarperir ar gyfer plant o'r oedran ysgol gorfodol o dan adran 19A o Ddeddf 1996:
- mewn unedau cyfeirio disgyblion, neu
 - ac eithrio mewn unedau cyfeirio disgyblion.
107. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas o dan adran 19A o Ddeddf 1996 ar gyfer plant o'r oedran ysgol gorfodol na fyddent yn cael addysg addas oni bai bod y trefniadau hynny yn cael eu gwneud: er enghraifft, ar gyfer plant sy'n sâl neu sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol.

101. If an appeal is made, the local authority may confirm the FNNE provider's decision or direct the provider to take the action that it considers appropriate. It must also inform the pupil's parent about its decision.
102. The section enables the Welsh Ministers to make further provision, by regulations, in connection with these appeals.

Section 47 – Exception for pupils for whom arrangements are made under section 19A of the Education Act 1996

103. This section makes it clear that the curriculum implementation duties in sections 27, 28, 29 and 30 do not apply to pupils for whom arrangements are made under section 19A of the 1996 Act (pupils receiving EOTAS, including in PRUs).

Section 48 – Power to make provision for further exceptions

104. This section enables the Welsh Ministers to make regulations specifying additional cases or circumstances in which some or all of the curriculum implementation duties in sections 27, 28, 29 and 30, or in sections 34, 35 and 36, may be disapplied or modified.
105. Subsection (2) allows the regulations to give a person a discretion to decide whether some or all of the curriculum implementation duties should be disapplied or modified in cases or circumstances specified in the regulations. So the regulations could, for example, allow head teachers to decide whether certain curriculum implementation duties should be disapplied in relation to pupils for whom external provision is commissioned (i.e. provision not provided by the school).

PART 3 - CURRICULUM FOR EXCEPTIONAL PROVISION OF EDUCATION IN PUPIL REFERRAL UNITS OR ELSEWHERE

Section 49 - Introduction

106. This section describes the contents of Part 3. The Part makes provision about the curriculum for education provided for children of compulsory school age under section 19A of the 1996 Act:
 - at pupil referral units, or
 - otherwise than at pupil referral units.
107. Local authorities in Wales are required to make arrangements for the provision of suitable education under section 19A of the 1996 Act for children of compulsory school age who would not receive a suitable education unless such arrangements were made: for example, for children who are ill or excluded from school.

108. Mae adran 19A wedi ei mewnosod yn Neddf 1996 gan baragraff 4 o Atodlen 2; mae adran 19 o Ddeddf 1996 (a oedd yn gosod gofynion tebyg yn flaenorol) yn peidio â chael effaith mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng Nghymru pan ddaw'r Ddeddf hon i rym.

Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau)

Adran 50 – Gofynion cwricwlwm

109. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, y pwyllgorau rheoli (os oes un*) a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am UCD arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau bod gan yr UCD gwricwlwm sy'n cydymffurfio â gofynion a nodir yn is-adrannau (2) i (5). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr UCD gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm hwnnw, neu drefnu iddo gael ei gyhoeddi.
110. *O dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau rheoli ar gyfer UCDau. Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau ynghylch aelodaeth a swyddogaethau'r pwyllgorau. Er bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau rheoli, nid yw Ddeddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw pwyllgorau rheoli. Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu, yn y dyfodol, ddirymu'r rheoliadau heb eu disodli, a fydd yn golygu na fydd gan UCDau bwyllgorau rheoli mwyach. Mae'r cyfeiriadau drwy'r Rhan hon at "y pwyllgor rheoli (os oes un)" yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd hwn.
111. Mewn ysgol a gynhelir, rhaid i'r pennaeth gynllunio cwricwlwm ar gyfer yr ysgol ac yna rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ei fabwysiadu. Yna cyfrifoldeb y pennaeth yw gweithredu'r cwricwlwm hwnnw i bob disgybl yn yr ysgol.
112. Mae is-adran (1) yn defnyddio dull gwahanol ar gyfer UCDau. Yma, rhaid i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am UCD i gyd arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau bod cwricwlwm ar gyfer yr uned sy'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn is-adrannau (2) i (5). Yna cyfrifoldeb yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr uned yw gweithredu'r cwricwlwm hwnnw i bob disgybl yn yr uned.
113. Mae gwahaniaethau penodol rhwng y gofynion cwricwlwm ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r heriau penodol o ddarparu addysgu a dysgu mewn UCDau, o'u cymharu ag ysgolion a gynhelir, ac anghenion penodol disgyblion sy'n mynychu'r unedau hyn.

108. Section 19A is inserted into the 1996 Act by paragraph 4 of Schedule 2; section 19 of the 1996 Act (which previously imposed similar requirements) ceases to have effect in relation to local authorities in Wales on the coming into force of this Act.

Pupil Referral Units (PRUs)

Section 50 – Curriculum requirements

109. This section requires the local authority, the management committees (if there is one*) and the teacher in charge of a PRU to exercise their functions so as to ensure that the PRU has a curriculum which complies with requirements set out in subsections (2) to (5). It also requires the teacher in charge of the PRU to publish a summary of that curriculum, or to arrange for it to be published.
110. *Under paragraph 15 of Schedule 1 to the 1996 Act, the Welsh Ministers may make regulations requiring local authorities to establish management committees for PRUs. The regulations may include provisions about the membership and functions of the committees. Whilst the Welsh Ministers have made regulations requiring local authorities to establish management committees, the 1996 Act does not require them to retain management committees. The Welsh Ministers may decide, in future, to revoke the regulations without replacing them, which will mean that PRUs will no longer have management committees. The references throughout this Part to “the management committee (if there is one)” allows for this possibility.
111. In a maintained school, the head teacher must design a curriculum for the school and the head teacher and governing body must then adopt it. It then falls to the head teacher to implement that curriculum for each pupil at the school.
112. Subsection (1) takes a different approach for PRUs. Here, the local authority, the management committee and the teacher in charge of a PRU must all exercise their functions so as to ensure that there is a curriculum for the unit that complies with the requirements sets out in subsections (2) to (5). It then falls to the teacher in charge of the unit to implement that curriculum for each pupil at the unit.
113. There are certain differences between the curriculum requirements for maintained schools and PRUs. These reflect the particular challenges of providing teaching and learning in PRUs, as compared to maintained schools, and the particular needs of pupils attending these units.

114. Mae ystod o resymau pam y caiff plant fynychu UCDAu, yn hytrach nag ysgolion a gynhelir. Caiff y rhesymau hyn gynnwys salwch, gwrthod mynd i'r ysgol neu ymddygiad heriol iawn sy'n gysylltiedig ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae disgyblion mewn UCDAu yn aml wedi colli cyfnodau estynedig o addysg ac mae ganddynt fylchau yn eu dysgu. Mae ganddynt o bosibl hunan-dyb isel a diffyg hyder, ac mae gan lawer ohonynt ddyheadau isel ar gyfer eu dyfodol. Am y rhesymau hyn, nid yw'r gofynion cwricwlwm i ddisgyblion mewn UCDAu yr un fath ag i'r rheini mewn ysgolion a gynhelir. Er bod UCDAu yn ymwneud â chynnydd addysgol, rhaid i'r addysgu a dysgu mewn UCDAu hefyd ganolbwyntio ar helpu'r disgyblion hyn i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad i ddarpariaeth brif ffrwd a rhag cymryd rhan mewn addysg a'u helpu i oresgyn y rhwystrau hyn.
115. Felly, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am UCD arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau bod cwricwlwm:
- sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben;
 - sy'n darparu ar gyfer cynnydd priodol i ddisgyblion;
 - sy'n addas i ddisgyblion o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol;
 - sy'n eang ac yn gytbwys i'r graddau y mae'n briodol i ddisgyblion;
 - sy'n darparu ar gyfer addysgu a dysgu:
 - sy'n cwmpasu maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles;
 - sy'n cwmpasu elfen fandadol ACRh mewn ffordd sy'n briodol yn ddatblygiadol; ac
 - sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd; ac
 - os yw'n rhesymol bosibl a phriodol, sy'n darparu ar gyfer addysgu a dysgu yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill a'r elfennau mandadol eraill.
116. Nid oes rhaid i gwricwlwm UCD gwmpasu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad a'r holl elfennau mandadol. Rhaid iddo gwmpasu maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles ac elfen fandadol ACRh, ond y bwriad yw caniatáu i UCDAu benderfynu ar yr hyn y mae'n rhesymol bosibl ac yn briodol ei ddarparu yn nhermau addysgu a dysgu mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill ac elfennau mandadol eraill.

Adran 51 – Adolygu a diwygio cwricwlwm

117. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am UCD gadw cwricwlwm yr uned o dan adolygiad. Rhaid iddynt sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn adran 50(2), (3) a (4), os oes angen drwy ei ddiwygio. Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion hynny, rhaid iddynt ystyried gwybodaeth a gesglir o drefniadau asesu a weithredir ganddynt o dan y Ddeddf (gweler adran 56).
118. Os caiff cwricwlwm UCD ei ddiwygio, rhaid i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr uned gyhoeddi'r cwricwlwm diwygiedig neu drefnu iddo gael ei gyhoeddi.

114. There are a range of reasons why children may attend PRUs, rather than maintained schools. These reasons may include illness, refusal to attend school or having very challenging behaviour associated with social, emotional and behavioural difficulties. Pupils at PRUs have often missed extended periods of education and have gaps in their learning. They may also have low self-esteem and lack confidence, and many have low aspirations for their future. For these reasons, the curriculum requirements for pupils at PRUs are not the same as for those at maintained schools. While PRUs are concerned with educational progress, the teaching and learning at PRUs must also focus on helping these pupils to address and overcome barriers which prevent them from accessing mainstream provision and from participating in education.
115. Subsection (2) therefore requires the local authority, the management committee and the teacher in charge of a PRU to exercise their functions so as to ensure there is a curriculum that:
- enables pupils to develop in the ways described in the four purposes;
 - provides for appropriate progression for pupils;
 - is suitable for pupils of differing ages, abilities and aptitudes;
 - is broad and balanced so far as appropriate for pupils;
 - provides for teaching and learning that:
 - encompasses the Health and Well-being area of learning and experience;
 - encompasses the mandatory element of RSE in a developmentally appropriate way; and
 - develops the cross-curricular skills; and
 - if it is reasonably possible and appropriate, provides for teaching and learning in the other areas of learning and experience and the other mandatory elements.
116. A PRU curriculum does not have to encompass all the areas of learning and experience and all the mandatory elements. It must encompass the Health and Well-being area of learning and experience and the mandatory element of RSE, but the intention is to allow PRUs to decide what is reasonably possible and appropriate to provide in terms of teaching and learning in other areas of learning and experience and other mandatory elements.

Section 51 – Curriculum review and revision

117. This section requires the local authority, the management committee and the teacher in charge of a PRU to keep the unit's curriculum under review. They must ensure that it continues to comply with the requirements set out in section 50(2), (3) and (4), if necessary by revising it. In considering whether the curriculum continues to comply with those requirements, they must take account of information gathered from assessment arrangements implemented by them under the Act (see section 56).
118. If a PRU curriculum is revised, the teacher in charge of the unit must publish the revised curriculum or arrange for it to be published.

Adran 52 – Gweithredu cwricwlwm

119. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am UCD sicrhau y gweithredir cwricwlwm yr uned yn unol â'r gofynion a nodir yn is-adrannau (1) i (4). Mae'r gofynion hyn yn cynnwys gofyniad i weithredu'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n ystyried ADY pob disgybl (os oes rhai).
120. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli ar gyfer UCD arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau y gweithredir y cwricwlwm yn unol â'r gofynion hyn.

Addysg arall a ddarperir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996

Adran 53 – Gofynion cwricwlwm

121. Mae'r adran hon yn gymwys i awdurdodau lleol sy'n gwneud trefniadau o dan adran 19A o Ddeddf 1996 i ddarparu addysg ar gyfer plant ac eithrio mewn UCDAu. Gwneir trefniadau o'r math hwn ar gyfer grŵp amrywiol o ddysgwyr y mae eu hamgylchiadau yn unigryw yn aml. Er enghraifft, gall dysgwr fynychu ysgol a gynhelir fel arfer ond oherwydd salwch ni all fynychu am gyfnod o amser ac mae angen iddo gael ei addysgu gartref neu yn yr ysbyty.
122. Mae'r ystod o amgylchiadau y gall fod angen mynd i'r afael â hwy o dan y trefniadau hyn yn ei gwneud yn amhriodol ac yn anymarferol ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynllunio un cwricwlwm cyffredin ar gyfer yr addysg a ddarperir i'r garfan hon o ddysgwyr. Yn lle hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau y mae'n eu rhoi yn eu lle ar gyfer addysg plentyn o dan adran 19A o Ddeddf 1996 yn sicrhau cwricwlwm pwrpasol i'r plentyn hwnnw sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn is-adrannau (2) i (5).
123. Y gofynion yn is-adrannau (2) i (5) yw bod rhaid i'r cwricwlwm i bob plentyn:
- galluogi'r plentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben;
 - darparu ar gyfer cynnydd priodol i'r plentyn;
 - bod yn addas ar gyfer gallu a dawn y plentyn;
 - bod yn eang ac yn gytbwys i'r graddau y mae'n briodol i'r plentyn;
 - darparu, i'r graddau y mae'n briodol i'r plentyn, ar gyfer addysgu a dysgu:
 - sy'n cwmpasu maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles;
 - sy'n cwmpasu elfen fandadol ACRh mewn ffordd sy'n briodol yn ddatblygiadol; a
 - sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol; ac
 - darparu, i'r graddau y mae'n rhesymol bosibl a phriodol, ar gyfer addysgu a dysgu yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill a'r elfennau mandadol eraill.
124. Nid oes rhaid i'r trefniadau sicrhau cwricwlwm i'r plentyn sy'n cwmpasu'r holl feysydd dysgu a phrofiad a'r holl elfennau mandadol. Rhaid i gwricwlwm y plentyn gwmpasu maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles ac elfen fandadol ACRh, ond y bwriad yw caniatáu i'r awdurdod lleol benderfynu ar yr hyn y mae'n rhesymol bosibl ac yn briodol ei ddarparu ar gyfer y plentyn yn nhermau addysgu a dysgu yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill a'r elfennau mandadol eraill.

Section 52 – Curriculum implementation

119. This section requires the teacher in charge of a PRU to ensure that the unit's curriculum is implemented in accordance with the requirements set out in subsections (1) to (4). These requirements include a requirement to implement the curriculum in a way that takes account of each pupil's ALN (if any).
120. This section also requires the local authority and the management committee for a PRU to exercise their functions with a view to ensuring that the curriculum is implemented in accordance with these requirements.

Other education provided under section 19A of the Education Act 1996

Section 53 – Curriculum requirements

121. This section applies to local authorities that make arrangements under section 19A of the 1996 Act to provide education for children otherwise than at PRUs. Arrangements of this kind are made for a varied group of learners whose circumstances are often unique. For example, a learner may ordinarily attend a maintained school but for reasons of illness may be unable to attend for a period of time and may need to be taught at home or in hospital.
122. The range of circumstances that may need to be addressed under these arrangements makes it inappropriate and impractical to require a local authority to design a single, common curriculum for the education provided to this cohort of learners. Instead, the Act requires the local authority to ensure that the arrangements that it puts in place for a child's education under section 19A of the 1996 Act secure a bespoke curriculum for that child that complies with the requirements in subsections (2) to (5).
123. The requirements in subsections (2) to (5) are that the curriculum for each child must:
- a. enable the child to develop in the ways described in the four purposes;
 - b. provide for appropriate progression for the child;
 - c. be suitable for the child's ability and aptitude;
 - d. be broad and balanced so far as is appropriate for the child;
 - e. provide, so far as is appropriate for the child, for teaching and learning that:
 - i. encompasses the Health and Well-being area of learning and experience;
 - ii. encompasses the mandatory element of RSE in a developmentally appropriate way; and
 - iii. develops the mandatory cross-curricular skills; and
 - f. provide, so far as is reasonably possible and appropriate, for teaching and learning in the other areas of learning and experience and the other mandatory elements.
124. The arrangements do not have to secure a curriculum for the child that encompasses all the areas of learning and experience and all the mandatory elements. The child's curriculum must encompass Health and Well-being area of learning and experience and the mandatory element of RSE, but the intention is to allow the local authority to decide what is reasonably possible and appropriate to provide for the child in terms of teaching and learning in the other areas of learning and experience and the other mandatory elements.

Adran 54 – Adolygu a diwygio

125. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n gwneud trefniadau o dan adran 19A o Ddeddf 1996 i ddarparu addysg ar gyfer plentyn ac eithrio mewn UCD gadw'r trefniadau hynny o dan adolygiad. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau yn parhau i sicrhau cwricwlwm i'r plentyn sy'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn adran 53, os oes angen drwy ddiwygio'r trefniadau hynny. Wrth ystyried a yw'r trefniadau yn parhau i sicrhau cwricwlwm o'r math hwnnw, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried gwybodaeth a gesglir o drefniadau asesu a weithredir mewn perthynas â'r plentyn o dan y Ddeddf (gweler adran 56).

Adran 55 – Gweithredu cwricwlwm

126. Mae'r adran hon, unwaith eto, yn gymwys i awdurdod lleol sy'n gwneud trefniadau o dan adran 19A o Ddeddf 1996 i ddarparu addysg ar gyfer plentyn ac eithrio mewn UCD. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau yn gwneud yn siŵr bod y cwricwlwm i'r plentyn yn cael ei weithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn is-adrannau (1) a (2).
127. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys gofyniad i weithredu'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n ystyried ADY y plentyn (os oes rhai).

RHAN 4 ASESU A CHYNNYDD

Adran 56 – Dyletswydd i wneud darpariaeth ynghylch trefniadau asesu

128. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch trefniadau asesu. Mae'r rhain yn drefniadau ar gyfer asesu (drwy gyfeirio at y cwricwla a lunnir o dan Rannau 2 a 3):

- y cynnydd a wneir gan ddisgyblion a phlant,
- y camau nesaf yn eu cynnydd, ac
- yr addysgu a dysgu y mae ei angen i wneud y cynnydd hwnnw.

129. Bydd gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i benderfynu ar y trefniadau asesu mwyaf priodol ar gyfer ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir, lleoliadau addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, UCDAu ac addysg ac eithrio yn yr ysgol nad yw mewn UCD, ac ar gyfer y disgyblion a'r plant y darperir addysgu a dysgu ar eu cyfer. Fel y'i crybwyllir uchod, rhaid ystyried canlyniadau unrhyw asesiadau wrth ystyried a oes angen diwygio cwricwlwm.

Adran 57 – Hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd

130. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddydau i unrhyw un neu ragor o'r "personau perthnasol" a restrir yn adran 56(4) i gymryd camau penodedig i hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd.

Section 54 – Review and revision

125. This section requires a local authority that makes arrangements under section 19A of the 1996 Act to provide education for a child otherwise than at a PRU to keep those arrangements under review. The local authority must ensure that the arrangements continue to secure a curriculum for the child that complies with the requirements set out in section 53, if necessary by revising those arrangements. In considering whether the arrangements continue to secure a curriculum of that kind, the local authority must take account of information gathered from assessment arrangements implemented in relation to the child under the Act (see section 56).

Section 55 – Curriculum implementation

126. This section, again, applies to a local authority that makes arrangements under section 19A of the 1996 Act to provide education for a child otherwise than at a PRU. It requires the local authority to ensure that the arrangements make sure that the curriculum for the child is implemented in accordance with the requirements set out in subsections (1) and (2).
127. These requirements include a requirement to implement the curriculum in a way that takes account of the child’s ALN (if any).

PART 4 ASSESSMENT AND PROGRESSION

Section 56 – Duty to make provision about assessment arrangements

128. These section requires the Welsh Ministers to make regulations about assessment arrangements. These are arrangements for assessing (by reference to the curricula prepared under Parts 2 and 3):

- the progress made by pupils and children,
- the next steps in their progression, and
- the teaching and learning needed to make that progress.

129. The Welsh Ministers will have the flexibility to determine the most appropriate assessment arrangements for maintained schools, maintained nursery schools, FNNE settings, PRUs and non-PRU EOTAS, and for the pupils and children for whom teaching and learning is provided. As mentioned above, the results of any assessments must be taken into account in considering whether a curriculum needs to be revised.

Section 57 – Promoting and maintaining understanding of progression

130. This section enables the Welsh Ministers to issue directions to any of the “relevant persons” listed in section 56(4) to take specified steps to promote and maintain an understanding of progression.

RHAN 5 ADDYSG ÔL-ORFODOL MEWN YSGOLION A GYNHELIR

131. Cyn i'r Ddeddf hon ddod i rym, nodwyd y trefniadau cwricwlwm i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Roedd Rhan 7 o Ddeddf 2002 yn gymwys mewn perthynas â disgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol (16 - 18 oed), yn ogystal ag mewn perthynas â disgyblion 3 - 16 oed.
132. Mae'r Ddeddf hon yn diddymu Rhan 7 o Ddeddf 2002. Nodir y trefniadau cwricwlwm newydd i ddisgyblion sy'n 3 - 16 oed yn Rhan 2, a nodir y rheini i ddisgyblion sy'n 16 - 18 oed yn y Rhan hon.

Adran 58 - Cyflwyniad a dehongli

133. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys Rhan 5. Nid yw'r Rhan ond yn gymwys mewn perthynas â disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Adran 59 - Gofyniad cwricwlwm cyffredinol

134. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir sicrhau bod y cwricwlwm i ddisgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol yn gwricwlwm cytbwys ac eang –

- sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion a'r gymdeithas, ac
- sy'n paratoi'r disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd yn ddiweddarach.

135. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau cwricwlwm o'r math hwn i ddisgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol y mae'r awdurdod yn ei chynnal. Ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau cwricwlwm o'r math hwn i ddisgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Adran 60 - Gofyniad cwricwlwm: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

136. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ddarparu addysgu a dysgu mewn ACRh pan fo disgybl sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol wedi gofyn amdano. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau y darperir yr addysgu a dysgu hwn os gofynnir amdano.

Adran 61 - Gofyniad cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

137. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ddarparu addysgu a dysgu mewn CGM pan fo disgybl sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol wedi gofyn amdano. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau y darperir yr addysgu a dysgu hwn os gofynnir amdano.

PART 5 POST COMPULSORY EDUCATION IN MAINTAINED SCHOOLS

131. Prior to the coming into force of this Act, the curriculum arrangements for registered pupils at maintained schools in Wales were set out in Part 7 of the Education Act 2002 (“the 2002 Act”). Part 7 of the 2002 Act applied in relation to pupils above compulsory school age (16 – 18 years old), as well as in relation to pupils aged 3 – 16.
132. This Act repeals Part 7 of the 2002 Act. The new curriculum arrangements for pupils who are 3 – 16 years old are set out in Part 2, and those for pupils who are 16 – 18 years old are set out in this Part.

Section 58 – Introduction and interpretation

133. This section describes the contents of Part 5. The Part applies only in relation to pupils at maintained schools who are above compulsory school age.

Section 59 - General curriculum requirement

134. This section requires the head teacher and governing body of a maintained school to ensure that the curriculum for pupils above compulsory school age is a balanced and broadly based curriculum that –

- promotes the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of the pupils and of society, and
- prepares the pupils for the opportunities, responsibilities and experiences of later life.

135. It also requires a local authority to exercise its functions with a view to ensuring a curriculum of this kind for pupils above compulsory school age in every school that the authority maintains. And it also requires the Welsh Ministers to exercise their functions with a view to ensuring a curriculum of this kind for pupils above compulsory school age in every maintained school in Wales.

Section 60 - Curriculum requirement: Relationships and Sexuality Education

136. This section requires the head teacher of a maintained school to provide teaching and learning in RSE where a pupil above compulsory school age has requested it. It also requires the governing body to exercise its functions with a view to ensuring that this teaching and learning is provided if requested.

Section 61 - Curriculum requirement: Religion, Values and Ethics

137. This section requires the head teacher of a maintained school to provide teaching and learning in RVE where a pupil above compulsory school age has requested it. It also requires the governing body to exercise its functions with a view to ensuring that this teaching and learning is provided if requested.

138. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r addysgu a dysgu a ddarperir o dan yr adran hon adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru, ond hefyd ystyried prif grefyddau eraill (nad ydynt yn rhai Cristnogol) yng Nghymru. Rhaid i'r addysgu a dysgu hefyd adlewyrchu'r ffaith y delir ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol (megis anffyddiaeth) yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu gofynion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr "CEHD").
139. Nid yw adran 61 o'r Ddeddf yn atal ysgol rhag gosod gofyniad bod pob disgybl yn ei chweched dosbarth yn ymgymryd â dosbarthiadau CGM gorfodol; nid yw ychwaith yn atal ysgol sy'n mabwysiadu'r dull hwn rhag darparu CGM gorfodol i'r chweched dosbarth sy'n cyd-fynd â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol ("CGM enwadol"). Mater i'r ysgol o hyd yw cynnwys CGM enwadol o'r fath.

Adran 62 – Gofynion cwricwlwm pellach

140. Mae'r adran hon yn nodi bod darpariaethau eraill ynghylch y cwricwlwm i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol yn adrannau 33A-33O o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'r darpariaethau hynny yn ei gwneud yn ofynnol creu cwricwla lleol i'r disgyblion hynny.

RHAN 6 ATODOL

Adran 63 – Dyletswydd i roi sylw i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc

141. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y personau a restrir yn is-adran (2). Y ddyletswydd yw rhoi sylw i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc, wrth arfer swyddogaethau a roddir iddynt gan neu o dan y Ddeddf, er enghraifft mewn perthynas â threfniadau asesu. Mae'r ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â phlant a phobl ifanc y mae arfer y swyddogaeth o dan sylw yn debygol o effeithio arnynt.
142. Bydd y ddyletswydd hon yn sicrhau y bydd angen gwneud pob penderfyniad sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu cwricwlwm gan roi sylw i'r effaith ar iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr. Bydd y penderfyniadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, benderfyniadau ynghylch cynnwys y cwricwlwm, a chynnydd.
143. Mae'r ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael addysg ac eithrio yn yr ysgol yn ogystal ag mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir, a phlant sy'n cael addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.

Adran 64 – Dyletswydd i hybu gwybodaeth am Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant a hawliau pobl ag anableddau a dealltwriaeth o'r Confensiynau hynny

144. Mae adran 64 yn gosod gofynion amrywiol mewn cysylltiad ag CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) ac CCUHPA (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau).

138. Sub-section (3) requires the teaching and learning provided under this section to reflect the fact that religious traditions in Wales are mainly Christian, but also to take account of other (non-Christian) principal religions in Wales. The teaching and learning must also reflect the fact that a range of non-religious philosophical convictions (such as atheism) are held in Wales. This approach reflects the requirements of the European Convention on Human Rights (the “ECHR”).
139. Section 61 of the Act does not prevent a school from imposing a requirement that all pupils in its sixth form undertake compulsory RVE classes; nor does it prevent a school that adopts this approach from providing compulsory sixth form RVE that accords with the school’s trust deeds, or the tenets of its religion, or religious denomination (“denominational RVE”). The content of such denominational RVE remains a matter for the school.

Section 62 - Further curriculum requirements

140. This section points out that there are other provisions about the curriculum for pupils in maintained schools who are above compulsory school age in sections 33A-33O in the Learning and Skills Act 2000. Those provisions require the creation of local curricula for those pupils.

PART 6 SUPPLEMENTARY

Section 63 - Duty to have regard to mental health and emotional well-being of children and young persons

141. This section places a duty on the persons listed in subsection (2). The duty is to have regard to the mental health and emotional well-being of children and young people, when exercising functions conferred on them by or under the Act, for instance in relation to assessment arrangements. The duty applies in relation to children and young people who are likely to be affected by the exercise of the function concerned.
142. This duty will ensure that all decisions relating to the development and implementation of a curriculum will need to be taken having regard to the impact on mental health and emotional well-being of learners. These decisions will include, for instance, decisions about the content of the curriculum, and progression.
143. The duty applies in relation to children and young people receiving EOTAS as well as in relation to children and young persons at maintained schools and maintained nursery schools, and children receiving FNNE.

Section 64 - Duty to promote knowledge and understanding of UN Conventions on the rights of children and persons with disabilities

144. Section 64 imposes various requirements in respect of the UNCRC (the United Nations Convention on the Rights of the Child) and the UNCRPD (the United Nations Convention on the Rights of People with Disabilities).

145. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir hybu gwybodaeth am CCUHP, ac am CCUHPA, a dealltwriaeth ohonynt, ymhlith pobl sy'n darparu addysgu a dysgu mewn cysylltiad â chwricwlwm yr ysgol. Byddai hyn yn cynnwys (ond heb fod o reidrwydd yn gyfyngedig i) athrawon sydd wedi eu cyflogi yn yr ysgol.
146. Ond ni fydd y ddyletswydd hon yn gymwys mewn perthynas (er enghraifft) â phobl sy'n darparu addysgu a dysgu yn yr ysgol nad yw'n ymwneud o gwbl â'r cwricwlwm, megis mewn dosbarthiadau nos sydd ar agor i'r gymuned leol.
147. Mae is-adran (2) yn gosod dyletswydd gyfatebol yng nghyd-destun addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir; yn y cyd-destun hwn gosodir y ddyletswydd ar ddarparwr yr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.
148. Mae is-adrannau (3) a (4) yn gosod dyletswyddau cyfatebol mewn cysylltiad ag UC Dau ac addysg arall ac eithrio yn yr ysgol. Yng nghyd-destun UCD, gosodir y ddyletswydd ar yr awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli (os oes un) a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr UCD. Yng nghyd-destun addysg ac eithrio yn yr ysgol nad yw mewn UCD, gosodir y ddyletswydd ar yr awdurdod lleol sy'n gwneud trefniadau ar gyfer yr addysg ac eithrio yn yr ysgol.

Adran 65 - Dyletswydd i gydweithredu

149. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r personau a bennir yn is-adran (2) geisio ymrwymo i "drefniadau cydweithredu", naill ai â pherson arall a bennir yn is-adran (2), neu â chorff llywodraethu sefydliad addysg bellach. Nid yw'r ddyletswydd ond yn gymwys os yw'r person o dan sylw yn ystyried y byddai gwneud y trefniadau yn hwyluso arfer swyddogaeth a roddir i'r person gan neu o dan y Ddeddf. Os yw person yn ceisio gwneud trefniadau â pherson arall drwy gydymffurfio â'r adran hon, rhaid i'r ail berson ystyried y cais.
150. Gallai trefniadau cydweithredu o dan yr adran hon, er enghraifft, ymwneud â darparu cymorth ariannol, neu rannu gwybodaeth, neu arfer swyddogaethau ar y cyd (gweler adran 5 o Fesur Addysg (Cymru) 2011).

Adran 66 - Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hwyluso cyflawni swyddogaethau

151. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n helpu'r personau a restrir yn is-adran (2) i gyflawni swyddogaethau a roddir iddynt gan neu o dan Rannau 2 i 4 o'r Ddeddf.
152. Mae'r cyfeiriad at Rannau 2 i 4 yn golygu nad yw'r ddyletswydd hon yn gymwys mewn perthynas â swyddogaethau a roddir i berson gan neu o dan y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud ag addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir, neu o dan Ran 6 ei hun.

145. Subsection (1) requires the head teacher and governing body of a maintained school or of a maintained nursery school to promote knowledge and understanding of the UNCRC, and the UNCRPD, among people who provide teaching and learning in respect of the school's curriculum. This would include (but not necessarily be limited to) teachers employed at the school.
146. But this duty will not apply in relation to (for instance) people who provide teaching and learning at the school that has nothing to do with the curriculum, such as in evening classes open to the local community.
147. Subsection (2) imposes an equivalent duty in the context of FNNE; in this context the duty is placed on the provider of the FNNE.
148. Subsections (3) and (4) impose equivalent duties in respect of PRUs and other EOTAS. In the context of a PRU, the duty is placed on the local authority, the management committee (if there is one) and the teacher in charge of the PRU. In the context of non-PRU EOTAS, the duty is placed upon the local authority that makes arrangements for the EOTAS.

Section 65 - Duty to co-operate

149. This section requires the persons specified in subsection (2) to seek to enter into "co-operation arrangements", either with another person specified in subsection (2), or with the governing body of a further education institution. The duty applies only if the person concerned considers that making the arrangements would facilitate the exercise of a function conferred on the person by or under the Act. If a person seeks to make arrangements with another person in compliance with this section, the second person must consider the request.
150. Co-operation arrangements under this section could for instance involve providing financial assistance, or sharing information, or exercising functions jointly (see section 5 of the Education (Wales) Measure 2011).

Section 66 - Welsh Ministers' duty to facilitate the performance of functions

151. This section requires the Welsh Ministers to exercise their functions in a way that supports the persons listed in subsection (2) in performing functions conferred on them by or under Parts 2 to 4 of the Act.
152. The reference to Parts 2 to 4 means that this duty does not apply in relation to functions conferred on a person by or under the provisions of the Act relating to post-compulsory education in maintained schools, or under Part 6 itself.

Adran 67 - Dyletswydd awdurdodau lleol i hwyluso cyflawni swyddogaethau

153. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n helpu'r personau a restrir yn is-adran (2) i gyflawni'r swyddogaethau a roddir iddynt gan neu o dan Rannau 2 i 4 o'r Ddeddf. Yn achos ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir, UCD neu addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, diffinnir y personau a restrir yn is-adran (2) drwy gyfeirio at ba un a gynhelir yr ysgol neu'r UCD gan yr awdurdod lleol, neu a sicheir yr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ganddo.
154. Mae'r adran hefyd yn gosod dyletswydd bellach ar awdurdod lleol sy'n gymwys pan fo'r awdurdod yn gwneud trefniadau i addysg ac eithrio yn yr ysgol gael ei darparu i blentyn, ond nid mewn ysgol a gynhelir, nac ysgol feithrin a gynhelir, nac UCD, a gynhelir gan yr awdurdod. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n helpu'r personau a restrir yn is-adran (5) i gyflawni eu swyddogaethau a roddir gan neu o dan Rannau 2 i 4. Mae'r ddyletswydd bellach hon yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn bosibl na chaiff addysg ac eithrio yn yr ysgol ei darparu mewn ysgol a gynhelir nac UCD o gwbl, neu ei bod yn bosibl y caiff ei darparu mewn ysgol a gynhelir neu UCD a gynhelir gan awdurdod lleol arall.

Adran 68 - Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu mynediad etc at gyrsiau astudio cyfrwng Cymraeg

155. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu mynediad at gyrsiau astudio a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, a hybu argaeledd y cyrsiau astudio hynny. "Cwrs astudio" at y diben hwn yw cwrs addysg, er enghraifft mathemateg, neu hyfforddiant, sy'n arwain at gymhwyster neu set o gymwysterau a gymeradwyir neu a ddynodir o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Mae'r ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â'r plant hynny y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt, h.y. y rheini a bennir yn adran 1 o'r Ddeddf. (Yn ymarferol, dilynrir "cwrs astudio" fel y'i diffinnir yn gyffredinol gan blant 14-16 oed, ond gall plant iau eraill ddilyn un weithiau.)

Adran 69 - Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer plant sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad etc

156. Mae adran 69 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch addysgu a dysgu sydd i'w ddarparu ar gyfer plant sydd o'r oedran ysgol gorfodol ac yn dod o fewn categori a bennir yn yr adran. Caiff y rheoliadau gymhwyso darpariaethau yn y Ddeddf mewn perthynas â'r plant hynny, gydag addasiadau neu hebddynt.

Section 67 - Local authorities' duty to facilitate the performance of functions

153. This section requires a local authority to exercise its functions in a way that supports the persons listed in subsection (2) in performing the functions conferred on them by or under Parts 2 to 4 of the Act. In the case of a maintained school, maintained nursery school, PRU or FNNE, the persons listed in subsection (2) are defined by reference to whether the school or PRU is maintained by the local authority, or the FNNE secured by it.
154. The section also imposes a further duty on a local authority that applies where the authority makes arrangements for a child to be provided with EOTAS, but not at a maintained school, or a maintained nursery school, or a PRU, that is maintained by the authority. The duty requires the local authority to exercise its functions in a way that supports the persons listed in subsection (5) in performing their functions conferred by or under Parts 2 to 4. This further duty reflects the fact that EOTAS may not be provided at a maintained school or PRU at all, or may be provided at a maintained school or PRU maintained by another local authority.

Section 68 - Welsh Ministers' duty to promote access etc to Welsh medium courses of study

155. This section requires the Welsh Ministers to promote access to courses of study taught through the medium of Welsh, and to promote the availability of such courses of study. A "course of study" for this purpose is a course of education, for example mathematics, or training, that leads to a qualification or set of qualifications approved or designated under the Qualifications Wales Act 2015. The duty applies in relation to those children to whom the Act applies, i.e. those specified in section 1 of the Act. (In practice, a "course of study" as defined is generally taken by children aged 14-16, but other, younger, children may sometimes take one.).

Section 69 - Power to make provision for children receiving education in more than one setting etc

156. Section 69 enables the Welsh Ministers to make regulations which make provision about teaching and learning to be provided for children who are of compulsory school age and fall within a category specified in the section. The regulations may apply provisions of the Act in relation to those children, with or without modifications.

157. Mae is-adran (2) yn darparu bod y pŵer yn gymwys mewn perthynas â phlentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, os darperir i'r plentyn addysg mewn ysgol arall a gynhelir, neu mewn ysgol feithrin a gynhelir, hefyd. Mae hefyd yn gymwys os yw'r plentyn, yn ogystal â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, yn cael addysg mewn UCD; neu addysg a ddarperir o dan adran 19A o Ddeddf 1996, ond nid mewn UCD, ysgol a gynhelir nac ysgol feithrin a gynhelir. Felly, byddai hyn yn cwmpasu, er enghraifft, blentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ond y darperir rhywfaint o addysg iddo mewn UCD hefyd, efallai oherwydd bod y plentyn yn cael ei ailgyflwyno'n raddol i addysg brif ffrwd. Byddai hefyd yn cwmpasu plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ond sy'n cael rhywfaint o addysg ac eithrio yn yr ysgol gartref.
158. Mae is-adran (3) yn dyblygu'r dull hwn mewn perthynas â phlentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol feithrin a gynhelir.
159. Mae is-adran (4) yn darparu bod y pŵer yn gymwys mewn perthynas â phlentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn UCD, os yw'r plentyn hefyd yn cael addysg mewn UCD arall, neu (yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf 1996) mewn man ac eithrio UCD, ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir. Enghraifft bosibl fyddai plentyn sy'n cael addysg ran-amser mewn UCD fel disgybl cofrestredig yno, a hefyd addysg ac eithrio yn yr ysgol yn rhan-amser gartref, efallai oherwydd nad yw'r plentyn yn barod i ymgymryd ag addysg lawnamser yn yr UCD eto.
160. Y bwriad y tu ôl i is-adrannau (2) i (4) yw galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch addysgu a dysgu ar gyfer plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir, neu UCD, ond sydd hefyd yn cael addysg mewn man arall, sef gartref neu mewn lleoliad arall efallai.
161. Mae is-adran (5) yn rhoi'r pŵer i bennu disgrifiadau pellach o blant y mae adran 69 i fod yn gymwys iddynt.
162. Mae angen y pŵer hwn i wneud darpariaeth ar gyfer categori pellach o blant: y rheini sy'n cael addysg mewn un lleoliad yn unig (boed yn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir, UCD, neu o dan adran 19A o Ddeddf 1996, ond nid mewn UCD nac ysgol) ond nad yw eu haddysg yn y lleoliad hwnnw yn llawnamser. (Gallai hyn fod, er enghraifft, oherwydd salwch, neu oherwydd bod plentyn yn cael ei ailgyflwyno'n raddol i addysg.)
163. Mae'r pŵer a roddir gan yr adran hon yn adlewyrchu'r ffaith y byddai'n amhriodol, pan fo plentyn yn cael addysg mewn mwy nag un lleoliad, neu addysg ran-amser yn unig mewn un lleoliad, i'r dyletswyddau cyffredin o ran dylunio a gweithredu cwricwlwm fod yn gymwys mewn perthynas ag ysgol neu UCD neu addysg ac eithrio yn yr ysgol neu ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir mewn cysylltiad â'r plentyn. Mae hyn oherwydd na fydd y plentyn yn cael addysg lawnamser gydag unrhyw ysgol nac UCD na ddarparwr addysg ac eithrio yn yr ysgol.

157. Subsection (2) provides that the power applies in relation to a child who is a registered pupil at a maintained school, if the child is also provided with education at another maintained school, or at a maintained nursery school. It also applies if the child, as well as being a registered pupil at a maintained school, is receiving education at a PRU; or education provided under section 19A of the 1996 Act, but not at a PRU, a maintained school or a maintained nursery school. So this would cover, for instance, a child who is a registered pupil at a maintained school, but is also provided with some education at a PRU, perhaps because the child is being eased back into mainstream education. It would also cover a child who is a registered pupil at a maintained school, but receives some EOTAS provision at home.
158. Subsection (3) duplicates this approach in relation to a child who is a registered pupil at a maintained nursery school.
159. Subsection (4) provides that the power applies in relation to a child who is a registered pupil at a PRU, if the child is also receiving education at another PRU, or (by virtue of arrangements made under section 19A of the 1996 Act) somewhere other than a PRU, a maintained school or a maintained nursery school. An example might be a child who is receiving part-time education at a PRU as a registered pupil there, and also part-time EOTAS at home, perhaps because the child is not yet ready to undertake full time education in the PRU.
160. The intention behind subsections (2) to (4) is to enable regulations to make provision about teaching and learning for children who are registered pupils at a maintained school, maintained nursery school, or PRU, but also receiving education somewhere else, perhaps at home or in another setting.
161. Subsection (5) confers the power to specify further descriptions of children to whom section 69 is to apply.
162. This power is needed to make provision for a further category of children: those who are receiving education at only one setting (whether a maintained school, a maintained nursery school, a PRU, or under section 19A of the 1996 Act, but not in a PRU or school) but whose education in that setting is not full-time. (This might for instance be because of illness, or because a child is being eased back into education.)
163. The power conferred by this section reflects the fact that, where a child is receiving education in more than one setting, or only part-time education in one setting, it would be inappropriate for the ordinary curriculum design and implementation duties to apply in relation to a school or a PRU or EOTAS or FNNE provider in respect of the child. This is because the child will not be receiving full-time education with any school or PRU or EOTAS provider.

164. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen hyblygrwydd i sicrhau bod y cwricwlwm a ddarperir ar gyfer y plentyn yn briodol, gan ystyried anghenion ac amgylchiadau'r plentyn, a'r ystod o ddarparwyr sydd o dan sylw – o bosibl unrhyw un neu ragor o ysgol, UCD, darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, uned cyfeirio disgyblion, a darparwr addysg arall o dan adran 19A o Ddeddf 1996. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddarpariaeth yn y rheoliadau. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir a pherson sy'n darparu addysg drwy addysg ac eithrio yn yr ysgol o dan adran 19A yng nghartref y plentyn gydweithio i sicrhau y gweithredir cwricwlwm sy'n bodloni gofynion penodol ar gyfer y plentyn.

Adran 70 – Pŵer i gymhwyso'r Ddeddf i blant sy'n cael eu cadw'n gaeth a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth

165. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cymhwyso, gydag addasiadau neu hebddynt, ddarpariaethau yn y Ddeddf i blant sy'n cael eu cadw'n gaeth a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth yng Nghymru. (Mae'r rhain yn blant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth drwy orchymyn llys, neu drwy orchymyn adalw a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae gorchymyn adalw yn orchymyn sy'n adalw person ifanc i'w gadw'n gaeth ar ôl ei ryddhau ar drwydded yn y lle cyntaf.)

Adran 71 – Dyletswydd i roi sylw i ganllawiau

166. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r personau a bennir yn is-adran (3), wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Ddeddf.
167. Gall canllawiau a roddir fel y'u disgrifir yn yr adran hon ymwneud ag unrhyw swyddogaeth a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon.

RHAN 7 CYFFREDINOL

Adran 72 – Statws y Ddeddf hon fel Deddf Addysg

168. Mae'r adran hon yn darparu bod y Ddeddf wedi ei chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf 1996.
169. Effaith hyn yw y bydd pwerau a dyletswyddau sy'n gymwys drwy'r llyfr statud mewn perthynas â'r "Deddfau Addysg" yn gymwys mewn perthynas â'r Ddeddf. Er enghraifft, mae'n golygu bod gan Weinidogion Cymru y pŵer, o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, i ymyrryd yn ymddygiad ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir os bydd ei chorff llywodraethu yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf neu'n gweithredu'n afresymol yng nghwrs unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae hefyd yn golygu bod gan Weinidogion Cymru bŵer, o dan Ddeddf 2013, i ymyrryd ag arfer swyddogaeth a roddir i awdurdod lleol o dan y Ddeddf hon, os bydd yr awdurdod yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf neu'n gweithredu'n afresymol wrth arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf.

164. In these circumstances, flexibility will be needed to ensure that the curriculum provided for the child is appropriate, taking into account the child's needs and circumstances, and the range of providers involved – potentially any one or more of a school, a PRU, a provider of FNNE, a pupil referral unit, and another provider of education under section 19A of the 1996 Act. This will be achieved by provision in the regulations. The regulations could, for instance, require the head teacher of a maintained school and a person providing education through section 19A EOTAS at the child's home to work together to ensure that a curriculum meeting certain requirements is implemented for the child.

Section 70 - Power to apply Act to detained children and detained young persons

165. This section enables the Welsh Ministers to make regulations applying, with or without modifications, provisions in the Act to detained children and detained young people in Wales. (These are children and young people detained by a court order, or by an order of recall made by the Secretary of State. An order of recall is an order recalling a young person to detention after initial release on licence.)

Section 71 - Duty to have regard to guidance

166. This section requires the persons specified in subsection (3), in exercising their functions, to have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers about the exercise of functions conferred by or under the Act.
167. Guidance given as described in this section may relate to any function conferred by or under this Act.

PART 7 GENERAL

Section 72 - Status of this Act as an Education Act

168. This section provides that the Act is included in the list of Education Acts set out in section 578 of the 1996 Act.
169. The effect of this is that powers and duties that apply throughout the statute book in relation to the "Education Acts" will apply in relation to the Act. For instance, it means that the Welsh Ministers have the power, under Part 2 of the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013, to intervene in the conduct of a maintained school or maintained nursery school in the event of its governing body failing to comply with duties under the Act or acting unreasonably in the course of any functions under the Act. It also means that the Welsh Ministers have power, under the 2013 Act, to intervene in the exercise of a function conferred on a local authority under this Act, in the event of the authority failing to comply with duties under the Act or acting unreasonably in the exercise of a function under the Act.

Adran 73 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

170. Mae adran 73 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Adran 74 – Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon etc

171. Mae adran 74 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol i roi effaith i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf. Gall hon fod yn ddarpariaeth atodol, yn ddarpariaeth gysylltiedig neu'n ddarpariaeth ganlyniadol, neu'n ddarpariaeth drosiannol, yn ddarpariaeth ddarfodol neu'n ddarpariaeth arbed.

172. Caiff y rheoliadau ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys y Ddeddf ei hun).

Adran 75 - Rheoliadau

173. Mae adran 75 yn nodi'r gweithdrefnau deddfwriaethol sy'n gymwys i reoliadau o dan y Ddeddf. Bydd rheoliadau o dan adran 5, adran 31 ac adran 48 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn ogystal â rheoliadau o dan adran 74 sy'n diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol. Bydd pob rheoliad arall (gan gynnwys rheoliadau o dan adran 74 nad ydynt yn diwygio nac yn diddymu deddfwriaeth sylfaenol) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Adran 76 – Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd: y weithdrefn

174. Mae adran 76 yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid ei dilyn wrth wneud neu ddiwygio'r Codau sy'n ofynnol o dan adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf (Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd). Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, cyn gwneud neu ddiwygio'r Cod. Rhaid iddynt hefyd osod gerbron Senedd Cymru ddrafft o'r Cod (neu o ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod, pan fo'n briodol). Rhaid i'r Cod drafft gael ei osod gerbron y Senedd am gyfnod nad yw'n llai na 40 niwrnod. Os yw'r Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod (neu'r Cod diwygiedig) ni all gael ei ddyroddi (neu ei ddiwygio). Os nad oes penderfyniad o'r fath rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (neu'r Cod diwygiedig) ar ffurf y drafft fel y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

175. Mae is-adran (6) yn caniatáu ymgynghori ar God, sy'n ofynnol gan is-adran (2)(a), cyn y daw adran 76 i rym.

Adran 77 – Y Cod ACRh: y weithdrefn

176. Mae adran 77 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud neu ddiwygio'r Cod ACRh o dan adran 8 o'r Ddeddf. Cyn gwneud neu ddiwygio'r Cod, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol. Rhaid iddynt hefyd osod y Cod arfaethedig (neu'r Cod diwygiedig) gerbron y Senedd. Os caiff y Cod arfaethedig (neu'r diwygiad) ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod fel y'i cymeradwywyd gan y Senedd. Os na chaiff y Cod arfaethedig (neu'r diwygiad) ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd, ni chaiff Gweinidogion Cymru ei ddyroddi.

Section 73 - Minor and consequential amendments and repeals

170. Section 73 introduces Schedule 2 which contains minor and consequential amendments and repeals.

Section 74 - Power to make additional provision to give full effect to this Act etc

171. Section 74 enables the Welsh Ministers to make provision in regulations that they consider is necessary or appropriate to give effect to any provision in the Act, or in consequence of any provision in the Act. This may be supplementary, incidental or consequential provision, or transitional, transitory or saving provision.

172. The regulations may amend primary or secondary legislation (including the Act itself).

Section 75 - Regulations

173. Section 75 sets out the legislative procedures applicable to regulations under the Act. Regulations under section 5, section 31, and section 48 will be subject to the affirmative procedure, as will regulations under section 74 that amend or repeal primary legislation. All other regulations (including regulations under section 74 that do not amend or repeal primary legislation) will be subject to the negative procedure.

Section 76 - The What Matters Code and the Progression Code: procedure

174. Section 76 sets out the procedure that must be followed in making or revising the Codes required under sections 6 and 7 of the Act (the What Matters Code and the Progression Code). In either case, the Welsh Ministers must consult such persons as they think appropriate, before making or revising the Code. They must also lay before Senedd Cymru a draft of the Code (or of proposed revisions to the Code where appropriate). The draft Code must be laid before the Senedd for not less than 40 days. If the Senedd resolves not to approve the Code (or the revised Code) it cannot be issued (or revised). If there is no such resolution the Welsh Ministers must issue the Code (or the revised Code) in the form of the draft as laid before the Senedd.

175. Subsection (6) allows consultation on a Code, required by subsection (2)(a), to be carried out before section 76 comes into force.

Section 77 - The RSE Code: procedure

176. Section 77 sets out the procedure for making or revising the RSE Code under section 8 of the Act. Before making or revising the Code, the Welsh Ministers must consult such persons as they think appropriate. They must also lay the proposed Code (or revised Code) before the Senedd. If the proposed Code (or revision) is approved by resolution of the Senedd the Welsh Ministers must publish the Code as approved by the Senedd. If the proposed Code (or revision) is not approved by resolution of the Senedd the Welsh Ministers may not issue it.

177. Mae is-adran (4) yn caniatáu ymgynghori ar y Cod, sy'n ofynnol gan is-adran (1)(a), cyn y daw adran 77 i rym.

Adran 78 – Gwybodaeth, hysbysiadau a chyfarwyddydau ysgrifenedig

178. Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhoi i bersonau penodol yn ysgrifenedig, neu'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau ysgrifenedig gael eu rhoi i bersonau penodol, neu'n awdurdodi rhoi cyfarwyddydau i bersonau penodol (neu'n galluogi i ddarpariaeth o'r fath gael ei gwneud mewn rheoliadau):

- Adran 32 (pŵer i ddatgymhwyso dyletswydd i weithredu dewis disgybl atodol)
- Adran 33 (adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â dewis disgybl)
- Adran 38 (eithriadau ar gyfer gwaith datblygu ac arbrogion), gweler hefyd y gofyniad yn adran 40(2))
- Adran 44 (darparu gwybodaeth am eithriadau dros dro)
- Adran 45 (apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol)
- Adran 46 (apelau am eithriadau dros dro ar gyfer plant unigol)
- Adran 56 (dyletswydd i wneud trefniadau asesu)
- Adran 57 (hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd)

179. Mae adran 78 yn pennu'r ffordd y caniateir i'r wybodaeth honno, a'r hysbysiadau neu'r cyfarwyddydau hynny, gael eu rhoi i'r personau hynny. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'n electronig ac ar gyfer y ffordd y caniateir i'r wybodaeth (neu'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd) gael ei throsglwyddo i gorff corfforedig neu bartneriaeth.

Adran 79 – Ystyr “ysgol a gynhelir”, “ysgol feithrin a gynhelir” ac ymadroddion cysylltiedig

180. Mae adran 79 yn darparu bod ysgol yn ysgol a gynhelir, at ddibenion y Ddeddf, os yw'n ysgol gymunedol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol (fel y disgrifir “community school”, “foundation school” a “voluntary school” yn Neddf 1998: gweler adrannau 20 ac 21 o'r Ddeddf honno), yn ysgol arbennig gymunedol (ac eithrio un a sefydlir mewn ysbyty) neu'n ysgol feithrin a gynhelir. Mewn unrhyw un o'r achosion hyn, rhaid i'r ysgol gael ei chynnal gan awdurdod lleol yng Nghymru.

Adran 80 – Ystyr “addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir” ac ymadroddion cysylltiedig

181. Mae adran 80 yn diffinio “addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir” a thermau cysylltiedig.

Adran 81 – Ystyr “uned cyfeirio disgyblion” ac ymadroddion cysylltiedig

182. Mae adran 81 yn diffinio “uned cyfeirio disgyblion” fel bod iddo yr ystyr a roddir i “pupil referral unit” gan adran 19A(2) o Ddeddf 1996 (gweler paragraff 4 o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon). Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch ystyr y termau “awdurdod lleol” a “pwyllgor rheoli” pan y'u defnyddir mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion.

177. Subsection (4) allows consultation on the Code, required by subsection (1)(a), to be carried out before section 77 comes into force.

Section 78 - Written information, notices and directions

178. The following provisions in the Act require information to be given to certain persons in writing, or require written notices to be given to certain persons, or authorise directions to be given to certain persons (or enable such provision to be made in regulations):

- Section 32 (power to disapply duty to implement pupil choice: supplementary)
- Section 33 (reviews and appeals relating to pupil choice)
- Section 38 (exceptions for development work and experiments), see also the requirement in section 40(2))
- Section 44 (provision of information about temporary exceptions)
- Section 45 (appeals about temporary exceptions for individual pupils)
- Section 46 (appeals about temporary exceptions for individual children)
- Section 56 (duty to make assessment arrangements)
- Section 57 (promoting and maintaining understanding of progression)

179. Section 78 specifies the way in which that information, and those notices or directions, may be given to those persons. It makes provision for electronic transmission and for the way in which the information (or notice or direction) may be transmitted to a body corporate or partnership.

Section 79 - Meaning of “maintained school”, “maintained nursery school” and associated expressions

180. Section 79 provides that a school is a maintained school, for the purposes of the Act, if it is a community, foundation or voluntary school (as defined in the 1998 Act: see sections 20 and 21 of that Act), a community special school (other than one established in a hospital) or a maintained nursery school. In any of these cases, the school must be maintained by a local authority in Wales.

Section 80 - Meaning of “funded non-maintained nursery education” and associated expressions

181. Section 80 defines “funded non-maintained nursery education” and associated terms.

Section 81 - Meaning of “pupil referral unit” and associated expressions

182. Section 81 defines “pupil referral unit” as having the meaning given by section 19A(2) of the 1996 Act (see paragraph 4 of Schedule 2 of this Act). This section also makes provision about the meaning of the terms “local authority” and “management committee” when used in relation to a pupil referral unit.

Adran 82 - Dehongli cyffredinol

183. Mae adran 82 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Ddeddf. Mae hefyd yn darparu y bydd i'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf a ddiffinnir yn Neddf 1996 yr ystyr a roddir yn Neddf 1996. O ganlyniad, mae i dermau amrywiol a ddefnyddir yn y Ddeddf yr ystyr a nodir yn Neddf 1996 (er enghraifft, 'ysgol' a 'rhiant').
184. Ond os rhoddir ystyr arall i derm a ddefnyddir yn y Ddeddf, a ddiffinnir yn Neddf 1996, gan y Ddeddf ei hun, neu gan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, yr ystyr arall hwnnw, yn hytrach na'r diffiniad yn Neddf 1996, a fydd yn gymwys at ddibenion y Ddeddf.

Adran 83 - Mynegai o ymadroddion a ddiffinnir yn y Ddeddf hon

185. Mae adran 83 yn darparu mynegai o dermau a ddiffinnir gan y Ddeddf a'r darpariaethau perthnasol sy'n eu diffinio.

Adran 84 - Dod i rym

186. Mae adran 84 yn darparu i Ran 7 ddod i rym drannoeth diwrnod y Cydsyniad Brenhinol. Mae'n darparu i'r darpariaethau sy'n weddill yn y Ddeddf ddod i rym ar ba ddiwrnod bynnag a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Caiff y gorchymyn bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol, felly gallai, er enghraifft, ddarparu i ddarpariaethau gwahanol ddod i rym ar ddiwrnodau gwahanol, neu i'r un ddarpariaeth ddod i rym ar ddiwrnodau gwahanol mewn perthynas â disgyblion o oeddrannau gwahanol, er enghraifft.
187. Caiff gorchymyn o dan yr adran hon wneud darpariaethau darfodol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed sy'n gysylltiedig â chychwyn.
188. Nid yw gorchymyn o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ddeddfwriaethol.

Adran 85 - Enw byr

189. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

ATODLEN 1 - CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

190. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol CGM.
191. Mae adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i gwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu, mewn cysylltiad ag elfen fandadol CGM, sy'n cyd-fynd â Rhan 1 o'r Atodlen. Yn yr un modd, mae adran 29 (cwricwlwm i ddisgyblion 3 i 14 oed) ac adran 30 (cwricwlwm i ddisgyblion 14 i 16 oed) yn ei gwneud yn ofynnol i gwricwlwm gael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu sy'n cyd-fynd â Rhan 2 o'r Atodlen.

Rhannau 1 a 2 - Cynllunio a gweithredu cwricwlwm

192. Mae'r gofynion a osodir gan Rannau 1 a 2 o'r Atodlen yn amrywio o ran eu cymhwyso i categorïau gwahanol o ysgolion.

Section 82 - General interpretation

183. Section 82 defines certain terms used in the Act. It also provides that terms used in the Act that are defined in the 1996 Act will have the meaning given in the 1996 Act. As a result, various terms used in the Act have the meaning set out in the 1996 Act (for example, 'school' and 'parent').
184. But if a term used in the Act, which is defined in the 1996 Act, is given another meaning by the Act itself, or by the Legislation (Wales) Act 2019, that other meaning, rather than the 1996 Act definition, will apply for the purposes of the Act.

Section 83 - Index of expressions defined in this Act

185. Section 83 provides an index of terms defined by the Act and the relevant provisions which define them.

Section 84 - Coming into force

186. Section 84 provides for Part 7 to come into force on the day after the day of Royal Assent. It provides for the remaining provisions of the Act to come into force on whatever day is specified in an order made by the Welsh Ministers. The order may appoint different days for different purposes, so it could for instance provide for different provisions to come into force on different days, or for the same provision to come into force on different days in relation to, say, pupils of different ages.
187. An order under this section may make transitory, transitional or saving provisions connected to commencement.
188. An order under this section is not subject to any legislative procedure.

Section 85 - Short title

189. This section provides that the short title of the Act is the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021.

SCHEDULE 1 - RELIGION, VALUES AND ETHICS

190. Schedule 1 makes provision about teaching and learning in respect of the mandatory element of RVE.
191. Section 24 requires a curriculum to make provision for teaching and learning, in respect of the mandatory element of RVE, that accords with Part 1 of the Schedule. Section 29 (curriculum for pupils aged 3 to 14) and section 30 (curriculum for pupils aged 14 to 16) similarly require a curriculum to be implemented in a way that secures teaching and learning that accords with Part 2 of the Schedule.

Parts 1 and 2 - Curriculum design and implementation

192. The requirements imposed by Parts 1 and 2 of the Schedule vary in their application to different categories of schools.

Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol

193. Yn achos ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol, mae paragraff 2 o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol bod y ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu CGM wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig. (Y "maes llafur cytunedig" yng nghyd-destun yr Atodlen yw'r maes llafur CGM a fabwysiedir gan yr awdurdod lleol o dan adran 375A o Ddeddf 1996 i'w ddefnyddio mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod.)
194. Mae paragraff 6 o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth CGM hon gael ei gweithredu ar gyfer pob disgybl.

Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol

195. Yn achos ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol, mae paragraff 3 o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol bod y ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu CGM wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.
196. Fodd bynnag, yn achos yr ysgolion hyn, mae gofyniad ychwanegol (gweler paragraff 3(3) a (4) o'r Atodlen). Nid yw'r gofyniad ychwanegol hwn ond yn gymwys os nad yw'r ddarpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig yn cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol.
197. (Y cam cyntaf wrth benderfynu a yw'r gofyniad ychwanegol hwn yn gymwys fydd ystyried a yw'r ddarpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig yn cyd-fynd ag unrhyw ddarpariaeth yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag CGM. Os nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag CGM, y cam nesaf fydd ystyried a yw'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â daliadau'r grefydd neu'r enwad a bennir mewn perthynas â'r ysgol gan orchymyn o dan adran 68A o Ddeddf 1998. Dim ond os nad yw'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth na'r daliadau perthnasol y bydd y gofyniad ychwanegol yn gymwys.)
198. Os yw'r gofyniad ychwanegol hwn yn gymwys, rhaid i gwricwlwm yr ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer CGM sydd yn cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol.
199. Mae paragraff 7(2) o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i'r addysgu a dysgu a sicrhau i ddisgyblion fod yn addysgu a dysgu y mae darpariaeth wedi ei gwneud ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(2) o'r Atodlen (h.y. y ddarpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).
200. Ond mae eithriad i'r gofyniad cyffredinol hwn. Mae paragraff 7(4) o'r Atodlen yn galluogi rhieni disgybl i ofyn, yn lle hynny, i'r addysgu a dysgu y mae'r cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar ei gyfer o dan baragraff 3(4) o'r Atodlen (h.y. y ddarpariaeth ychwanegol sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad) gael ei ddarparu i'w plentyn. Os yw cais o'r math hwn yn cael ei wneud, rhaid cydymffurfio ag ef.

Community schools and foundation and voluntary schools without a religious character

193. In the case of community schools and foundation and voluntary schools without a religious character, paragraph 2 of the Schedule requires the provision in the curriculum for teaching and learning encompassing RVE to have been designed having regard to the agreed syllabus. (The “agreed syllabus” in the context of the Schedule is the RVE syllabus adopted by the local authority under section 375A of the 1996 Act for use in schools maintained by the authority.)
194. Paragraph 6 of the Schedule requires this RVE provision to be implemented for all pupils.

Foundation and voluntary controlled schools that have a religious character

195. In the case of foundation and voluntary controlled schools with a religious character, paragraph 3 of the Schedule requires the provision in the curriculum for teaching and learning encompassing RVE to have been designed having regard to the agreed syllabus.
196. However, in the case of these schools, there is an additional requirement (see paragraph 3(3) and (4) of the Schedule). This additional requirement applies only if the provision that has been designed having regard to the agreed syllabus does not accord with the school’s trust deed, or the tenets of its religion or religious denomination.
197. (The first step in determining whether this additional requirement applies will be to consider whether the provision designed having regard to the agreed syllabus accords with any provision in the school’s trust deed that relates to teaching and learning in respect of RVE. If there is not any provision in the trust deed that relates to teaching and learning in respect of RVE, the next step will be to consider whether the provision accords with the tenets of the religion or denomination specified in relation to the school by an order under section 68A of the 1998 Act. Only if the provision does not accord with the trust deed or the relevant tenets will the additional requirement apply.)
198. If this additional requirement applies, the school’s curriculum must also include provision for RVE that does accord with the school’s trust deed, or the tenets of its religion or religious denomination.
199. Paragraph 7(2) of the Schedule requires the teaching and learning secured for pupils to be that for which provision has been made in the curriculum under paragraph 3(2) of the Schedule (i.e. the provision designed having regard to the agreed syllabus).
200. But there is an exception to this general requirement. Paragraph 7(4) of the Schedule enables a pupil’s parents to request that their child be provided, instead, with the teaching and learning for which the curriculum makes provision under paragraph 3(4) of the Schedule (i.e. the additional provision that accords with the school’s trust deed, or the tenets of its religion or denomination. If a request of this type is made, it must be complied with.

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol

201. Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol, mae paragraff 4(2) o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag CGM sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad.
202. Eto, mae gofyniad ychwanegol (gweler paragraff 4(3) a 4(4) o'r Atodlen). Ar gyfer ysgolion o'r math hwn, nid yw'r gofyniad ychwanegol ond yn gymwys os nad yw'r ddarpariaeth sydd wedi ei chynllunio o dan baragraff 4(2) (h.y. sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau crefyddol neu enwad yr ysgol) yn cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig. Yn yr achos hwn, rhaid i gwricwlwm yr ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer CGM sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.
203. Mae paragraff 8(2) o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i'r addysgu a dysgu a sicrhau i ddisgyblion fod yn addysgu a dysgu y mae darpariaeth wedi ei gwneud ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 4(2) o'r Atodlen (h.y. y ddarpariaeth sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ei chrefydd neu ei henwad).
204. Ond eto mae eithriad i'r gofyniad cyffredinol hwn. Mae paragraff 8(3) a (4) o'r Atodlen yn galluogi rhieni disgybl i ofyn, yn lle hynny, i'r addysgu a dysgu y mae'r cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar ei gyfer o dan baragraff 4(4) (h.y. y ddarpariaeth ychwanegol sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig) gael ei ddarparu i'w plentyn. Os yw cais o'r math hwn yn cael ei wneud, rhaid cydymffurfio ag ef.

Rhan 3 - Dehongli

205. Mae Rhan 3 yn esbonio'r hyn a olygir gan ysgolion sydd â "cymeriad crefyddol" (gan fod hwn yn gysyniad a gymhwysir yn yr Atodlen) ac at y diben hwn yn cyfeirio at adran 68A o Ddeddf 1998 fel y'i mewnosit gan Atodlen 2 i'r Ddeddf.

ATODLEN 2 - MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIDDYMIADAU

Deddf Addysg 1996

206. Mae paragraffau 2-4, 21, 25, 47-50, 52-55 a 64-65 o Atodlen 2 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â darparu addysg ac eithrio yn yr ysgol, gan gynnwys mewn UCDAu.
207. Mae paragraff 3 yn diwygio adran 19 o Ddeddf 1996 (darpariaeth eithriadol o addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion neu mewn mannau eraill) fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.
208. Mae paragraff 4 yn mewnosit adran 19A yn Neddf 1996. Mae'r adran hon yn gymwys o ran Cymru yn unig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud trefniadau ar gyfer addysg addas yn yr ysgol neu ac eithrio yn yr ysgol i blant o'r oedran ysgol gorfodol o fewn ardal yr awdurdod lleol na allant gael addysg addas am gyfnod oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud iddynt.

Voluntary aided schools that have a religious character

201. In the case of voluntary aided schools with a religious character, paragraph 4(2) of the Schedule requires the curriculum to make provision for teaching and learning in respect of RVE that accords with the school's trust deed or the tenets of its religion or denomination.
202. Again, there is an additional requirement (see paragraph 4(3) and 4(4) of the Schedule). For schools of this type, the additional requirement applies only if the provision that has been designed under paragraph 4(2) (i.e. which accords with the trust deed or tenets of the school's religion or denomination) does not accord with the agreed syllabus. In this case, the school's curriculum must also include provision for RVE that has been designed having regard to the agreed syllabus.
203. Paragraph 8(2) of the Schedule requires the teaching and learning secured for pupils to be that for which provision has been made in the curriculum under paragraph 4(2) of the Schedule (i.e. the provision that accords with the school's trust deed or its religion or denomination).
204. But again there is an exception to this general requirement. Paragraph 8(3) and (4) of the Schedule enable a pupil's parents to request that their child be provided, instead, with the teaching and learning for which the curriculum makes provision under paragraph 4(4) (i.e. with the additional provision designed having regard to the agreed syllabus). If a request of this type is made, it must be complied with.

Part 3 – Interpretation

205. Part 3 explains what is meant by schools having a “religious character” (since this is a concept applied in the Schedule) and for this purpose refers to section 68A of the 1998 Act as inserted by Schedule 2 to the Act.

SCHEDULE 2 - MINOR AND CONSEQUENTIAL AMENDMENTS AND REPEALS

Education Act 1996

206. Paragraphs 2-4, 21, 25, 47-50, 52-55 and 64-65 of Schedule 2 make minor and consequential amendments in relation to the provision of education otherwise than at school, including at PRUs.
207. Paragraph 3 amends section 19 of the 1996 Act (exceptional provision of education in pupil referral units or elsewhere) so that it applies to England only.
208. Paragraph 4 inserts section 19A into the 1996 Act. This section applies in relation to Wales only. It requires local authorities in Wales to make arrangements for suitable education at school or otherwise than at school for children of compulsory school age within the local authority's area who, by reason of illness, exclusion from school or otherwise, may not receive suitable education for a period unless such arrangements are made for them.

209. Mae paragraff 6 yn diwygio adran 375 o Ddeddf 1996 (meysydd llafur cytunedig addysg grefyddol) fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.
210. Mae paragraff 7 yn mewnosod adran 375A yn Neddf 1996. Mae'r adran hon yn gymwys o ran Cymru yn unig. Mae'n gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i fabwysiadu maes llafur ar gyfer CGM i'w ddefnyddio yn yr ysgolion a gynhelir ganddo. Mae'r adran newydd hefyd yn cyflwyno, o ran Cymru, Atodlen 31 i Ddeddf 1996, sy'n sefydlu cyfansoddiad a swyddogaethau cynadleddau maes llafur cytunedig a gynullir gan awdurdodau lleol.
211. Mae adran 375A o Ddeddf 1996 yn caniatáu i'r maes llafur cytunedig ar gyfer CGM wneud darpariaeth wahanol ar gyfer mathau gwahanol o ysgolion a dysgwyr. Rhaid i'r maes llafur adlewyrchu'r ffaith bod traddodiad crefyddol yng Nghymru yn Gristnogol yn bennaf. Rhaid iddo hefyd roi sylw i ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru a'r ffaith bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yn cael eu harddel yng Nghymru.
212. Mae paragraffau 8 i 11 yn gwneud diwygiadau i adrannau 390-392 o Ddeddf 1996, sy'n ymwneud â chyfansoddiad a swyddogaethau cynghorau ymgynghorol sefydlog, fel eu bod yn gymwys mewn perthynas â darparu CGM yng Nghymru (yn ogystal ag mewn perthynas â darparu AG yn Lloegr).
213. Mae paragraff 9 yn diwygio adran 390 o Ddeddf 1996 (cyfansoddiad cynghorau ymgynghorol). Yr effaith yw, pan fo awdurdod lleol yng Nghymru yn cyfansoddi cyngor ymgynghorol sefydlog ar CGM, fod rhaid iddo benodi grŵp o bersonau i gynrychioli enwadau Cristnogol, crefyddau ac enwadau eraill, ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol i'w gyngor ymgynghorol sefydlog. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod aelodaeth y grŵp yn gymesur o ran niferoedd â chryfder pob crefydd, enwad neu argyhoeddiad yn ei ardal leol (gweler yr is-adran newydd (6A) a (6B) o adran 390, a fewnosodir gan baragraff 9(8) o'r Atodlen).
214. Yn ogystal, bydd angen i'r awdurdod lleol benodi grwpiau o bersonau i'r cyngor ymgynghorol sefydlog i gynrychioli'r awdurdod lleol ac athrawon: darperir ar gyfer y gofyniad hwn eisoes yn Neddf 1996 ac ni newidir hyn gan y Ddeddf.
215. Mae paragraff 9 o'r Atodlen yn diwygio ymhellach adran 390 o Ddeddf 1996 er mwyn cynnwys dyletswydd ar awdurdod lleol yng Nghymru i roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 390.

209. Paragraph 6 amends section 375 of the 1996 Act (agreed syllabuses of religious education) so that it applies to England only.
210. Paragraph 7 inserts section 375A into the 1996 Act. This section applies in relation to Wales only. It places a duty on each local authority in Wales to adopt a syllabus of RVE for use in the schools it maintains. The new section also introduces, in relation to Wales, Schedule 31 of the 1996 Act, which establishes the constitution and functions of agreed syllabus conferences convened by local authorities.
211. Section 375A of the 1996 Act allows the agreed syllabus for RVE to make different provision for different types of schools and learners. The syllabus must reflect the fact that religious tradition in Wales are mainly Christian. It must also take account of the teaching and practices of the other principal religions represented in Wales and the fact that a range of non-religious philosophical convictions are held in Wales.
212. Paragraphs 8 to 11 make amendments to sections 390-392 of the 1996 Act, which relate to the constitution and functions of standing advisory councils, so that they apply in relation to the provision of RVE in Wales (as well as in relation to the provision of RE in England).
213. Paragraph 9 amends section 390 of the 1996 Act (constitution of advisory councils). The effect is that, where a local authority in Wales constitutes a standing advisory council on RVE, it must appoint a group of persons to represent Christian denominations, other religions and denominations, and non-religious philosophical convictions to its standing advisory council. The local authority must take all reasonable steps to secure that the membership of the group is numerically proportionate to the strength of each religion, denomination, or conviction in its local area (see the new subsection (6A) and (6B) of section 390 inserted by paragraph 9(8) of the Schedule.).
214. The local authority will, in addition, need to appoint groups of persons to the standing advisory council to represent the local authority and teachers: this requirement is already provided for in the 1996 Act and is not altered by the Act.
215. Paragraph 9 of the Schedule further amends section 390 of the 1996 Act so as to include a duty on a local authority in Wales to have regard to any guidance given by the Welsh Ministers when exercising its functions under section 390.

216. Mae paragraff 10 yn mewnosod is-adran (1A) yn adran 391 o Ddeddf 1996 (swyddogaethau cynghorau ymgynghorol). Mae'r is-adran hon yn nodi'r dibenion y mae rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru gyfansoddi cyngor ymgynghorol sefydlog atynt. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cyngor i'r awdurdod lleol ynghylch yr addysgu a dysgu sydd i'w ddarparu mewn cysylltiad ag elfen fandadol CGM, ac mewn cysylltiad ag CGM a ddarperir ar gais i'r grŵp oedran addysg ôl-orfodol (blynyddoedd ysgol 12 a 13) o dan adran 60. (Mater i'r ysgol o hyd yw cynnwys CGM a ddarperir gan ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf hon ac sy'n cyd-fynd â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth, daliadau eu crefydd neu eu henwad crefyddol.)
217. Mae paragraff 13 yn diwygio adran 396 o Ddeddf 1996 (pŵer i gyfarwyddo cyngor ymgynghorol i ddirymu penderfyniad neu gyflawni dyletswydd) fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.
218. Mae paragraff 14 yn mewnosod adran 396A yn Neddf 1996. Mae'r adran hon yn gymwys o ran Cymru yn unig. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo cyngor ymgynghorol sefydlog a gyfansoddir gan awdurdod lleol yng Nghymru i ddirymu penderfyniad a wneir o dan adran 394 neu 395 o Ddeddf 1996, neu i gyflawni dyletswydd a osodir ar gyngor ymgynghorol sefydlog o dan yr adrannau hynny. Mae adran 394 o Ddeddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ymgynghorol sefydlog benderfynu ceisiadau a wneir gan bennaeth ysgol gymunedol, neu ysgol wirfoddol heb gymeriad crefyddol, i'r gofyniad ar gyfer addoli Cristnogol ar y cyd beidio â bod yn gymwys i'r ysgol (neu i ddsbarth neu ddisgrifiad o ddisgyblion yn yr ysgol); ac mae adran 395 o Ddeddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ymgynghorol sefydlog adolygu'r penderfyniadau hynny.
219. Mae paragraff 15 yn diwygio adran 397 o Ddeddf 1996 (addysg grefyddol: mynediad at gyfarfodydd a dogfennau) er mwyn ei gwneud yn glir mai Gweinidogion Cymru sydd â'r pŵer i wneud rheoliadau ynghylch cyfarfodydd a dogfennau cynghorau ymgynghorol sefydlog a gyfansoddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a chynadleddau maes llafur cytunedig a gynullir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.
220. Mae paragraff 16 yn diwygio adran 399 o Ddeddf 1996 (penderfynu a yw addysg grefyddol yn unol â'r weithred ymddiriedolaeth) fel bod yr adran yn gymwys mewn perthynas â darparu CGM mewn ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yng Nghymru yn yr un modd ag y mae'n gymwys mewn perthynas ag AG mewn ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn Lloegr.
221. Mae paragraffau 17 i 20 o Atodlen 1 yn diwygio adrannau 403 - 405, sy'n ymwneud ag addysg rhyw, fel eu bod yn gymwys i Loegr yn unig.
222. Mae paragraff 22 yn mewnosod cyfeiriadau at adran 397 o Ddeddf 1996, a pharagraffau 6B a 6C o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, yn adran 569 o'r Ddeddf honno. Mae adran 569 yn nodi'r gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 1996.

216. Paragraph 10 inserts subsection (1A) into section 391 of the 1996 Act (functions of advisory councils). This subsection sets out the purposes for which a local authority in Wales must constitute a standing advisory council. These include the provision of advice to the local authority about the teaching and learning to be provided in respect of the mandatory element of RVE, and in respect of RVE provided on request to the post-compulsory education age group (school years 12 and 13) under section 60. (The content of RVE provided by schools with a religious character in accordance Schedule 1 to this Act and which accords with their trust deeds, tenets of their religion, or religious denomination remains a matter for the school.)
217. Paragraph 13 amends section 396 of the 1996 Act (power to direct advisory council to revoke determination or discharge duty) so that it applies to England only.
218. Paragraph 14 inserts section 396A into the 1996 Act. This section applies in relation to Wales only. It gives the Welsh Ministers a power to direct a standing advisory council constituted by a local authority in Wales to revoke a determination made under section 394 or 395 of the 1996 Act, or to discharge a duty imposed on a standing advisory council under those sections. Section 394 of the 1996 Act requires standing advisory councils to determine applications made by the head teacher of a community school, or a voluntary school without a religious character, for the requirement for Christian collective worship not to apply to the school (or to a class or description of pupils at the school); and section 395 of the 1996 Act requires standing advisory councils to review those determinations.
219. Paragraph 15 amends section 397 of the 1996 Act (religious education: access to meetings and documents) in order to make it clear that the power to make regulations about the meetings and documents of standing advisory councils constituted by local authorities in Wales and agreed syllabus conferences convened by local authorities in Wales rests with the Welsh Ministers.
220. Paragraph 16 amends section 399 of the 1996 Act (determination of question whether religious education is in accordance with trust deed) so that the section applies in relation to RVE provision at a foundation or voluntary school in Wales in the same way that it applies in relation to RE at a foundation or voluntary school in England.
221. Paragraphs 17 to 20 of Schedule 1 amend sections 403 – 405, which relate to sex education, so that they apply to England only.
222. Paragraph 22 inserts references to section 397 of the 1996 Act, and paragraphs 6B and 6C of Schedule 1 to that Act, into section 569 of that Act. Section 569 sets out the legislative procedures for regulations made under the 1996 Act.

223. Mae paragraffau 23 a 24 yn gwneud diwygiadau technegol i adran 579 (dehongli cyffredinol) ac adran 580 (mynegai). Mae hynny yn cynnwys diweddarau'r cofnod ar gyfer "agreed syllabus" yn y mynegai o dermau wedi eu diffinio fel ei fod yn rhestru ar wahân y ddarpariaeth Cymru yn unig yn adran 375A(7) a'r ddarpariaeth Lloegr yn unig yn adran 375(2) a (4).
224. Mae paragraff 25 yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf 1996, sy'n ymwneud ag UC Dau. Mae'n mewnosod paragraffau 6A-6D yn yr Atodlen honno: mae'r paragraffau hyn yn gymwys mewn perthynas ag UC Dau a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru.
225. Mae paragraff 6B(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 yn gosod dyletswyddau ar yr awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli (os oes un) a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am UC mewn perthynas â'r cwricwlwm i ddisgyblion cofrestredig yn yr UC. Yn benodol, mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â disgyblion o'r oedran ysgol gorfodol yn unol ag adrannau 50 i 52 o'r Ddeddf hon. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â disgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol gyda golwg ar sicrhau bod y cwricwlwm i'r disgyblion hynny yn bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff 6B(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 1996.
226. Mae paragraffau 6B(3) a 6C o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch darparu cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol mewn UC Dau, a hefyd reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, pwyllgorau rheoli ac athrawon sydd â chyfrifoldeb am UC Dau arfer swyddogaethau penodedig mewn perthynas â'r cwricwlwm, gan gydweithredu neu fel arall.
227. Mae paragraff 6D o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion penodol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gan gynnwys cwynion sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan adran 50, 51 neu 52 o'r Ddeddf hon. Mae paragraff 6D(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 yn atal Gweinidogion Cymru rhag arfer eu pwerau ymyrryd o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mewn perthynas â chwynion o'r fath oni bai bod y cwynion wedi eu gwneud, ac onid ymdriniwyd â'r cwynion, o dan drefniadau'r awdurdod lleol.
228. Mae paragraff 25(5) yn diwygio paragraff 8 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 fel ei fod yn gymwys i Loegr yn unig. Mae hefyd yn mewnosod is-paragraff newydd sy'n darparu bod adrannau 406 a 407 o Ddeddf 1996 yn gymwys mewn perthynas ag UC Dau yng Nghymru. Mae'r adrannau hynny yn gwneud darpariaeth i wahardd egwyddori gwleidyddol ac i sicrhau triniaeth gytbwys o faterion gwleidyddol.
229. Mae paragraff 26 yn diwygio Atodlen 31 i Ddeddf 1996. Mae'r Atodlen, fel y'i diwygiwyd, yn gwneud darpariaeth ynghylch meysydd llafur cytunedig AG (yn Lloegr) ac CGM (yng Nghymru).

223. Paragraphs 23 and 24 make technical amendments to section 579 (general interpretation) and section 580 (index). That includes updating the entry for “agreed syllabus” in the index of defined terms so that it lists separately the Wales-only provision in section 375A(7) and the England-only provision in section 375(2) and (4).
224. Paragraph 25 amends Schedule 1 to the 1996 Act, which relates to PRUs. It inserts paragraphs 6A-6D into that Schedule: these paragraphs apply in relation to PRUs maintained by a local authority in Wales.
225. Paragraph 6B(1) of Schedule 1 to the 1996 Act places duties on the local authority, the management committee (if there is one) and the teacher in charge of a PRU in relation to the curriculum for registered pupils at the PRU. Specifically, it requires them to exercise their functions in relation to pupils of compulsory school age in accordance with sections 50 to 52 of this Act. It also requires them to exercise their functions in relation to pupils above compulsory school age with a view to securing that the curriculum for those pupils meets the requirements specified in paragraph 6B(2) of Schedule 1 to the 1996 Act.
226. Paragraphs 6B(3) and 6C of Schedule 1 to the 1996 Act enable the Welsh Ministers to make regulations about the provision of a curriculum for pupils above compulsory school age at PRUs, and also regulations requiring local authorities, management committees and teachers in charge of PRUs to exercise specified functions in relation to the curriculum, in collaboration or otherwise.
227. Paragraph 6D of Schedule 1 to the 1996 Act requires each local authority in Wales to make arrangements for dealing with certain curriculum-related complaints, including complaints relating to the exercise of functions under section 50, 51 or 52 of this Act. Paragraph 6D(2) of Schedule 1 to the 1996 Act prevents the Welsh Ministers from exercising their intervention powers under Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 in relation to such complaints unless the complaints have been made, and dealt with, under the local authority arrangements.
228. Paragraph 25(5) amends paragraph 8 of Schedule 1 to the 1996 Act so that it applies to England only. It also inserts a new sub-paragraph which provides that sections 406 and 407 of the 1996 Act apply in relation to PRUs in Wales. Those sections make provision to prohibit political indoctrination and to ensure a balanced treatment of political issues.
229. Paragraph 26 amends Schedule 31 of the 1996 Act. The Schedule, as amended, makes provision about agreed syllabuses of RE (in England) and RVE (in Wales).

230. Mae paragraff 26(4) yn diwygio Atodlen 31 i Ddeddf 1996 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnull cynhadledd maes llafur cytunedig benodi pwyllgor o bersonau i'r gynhadledd i gynrychioli enwadau Cristnogol, crefyddau ac enwadau eraill, ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod aelodaeth y pwyllgor yn gymesur o ran niferoedd â chryfder pob crefydd, enwad neu argyhoeddiad yn ei ardal leol (gweler y paragraff newydd 4(5) a (6) yn Atodlen 31 i Ddeddf 1996, a fewnosodir gan baragraff 26(6)).
231. Mae paragraff 26(9) yn mewnosod paragraff 9A yn Atodlen 31 i Ddeddf 1996. Mae paragraff 9A yn nodi'r amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y caiff awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu ei faes llafur cytunedig cyntaf ar gyfer CGM o dan adran 375A o Ddeddf 1996. Mae'n pennu'r amgylchiadau pan fyddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau gweithredu (gweler paragraff 12 o Atodlen 31) pe na bai'r amodau hynny ar gyfer mabwysiadu wedi eu bodloni.
232. Mae paragraff 26(10) yn mewnosod is-baragraffau (2A) i (2D) ym mharagraff 10 o Atodlen 31 i Ddeddf 1996. Mae is-baragraffau (2B) a (2C) yn nodi'r amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y caiff awdurdod lleol yng Nghymru roi effaith i'r argymhellion a wneir gan gynhadledd maes llafur cytunedig sydd wedi ei chynnull i ailystyried maes llafur cytunedig.
233. Mae paragraff 26(11) yn mewnosod is-baragraff (1A) ym mharagraff 12 o Atodlen 31 i Ddeddf 1996. Mae'r is-baragraff hwn yn datgan, pan fo'n ofynnol gan baragraff 9A neu 10 o'r Atodlen honno, fod rhaid i Weinidogion Cymru benodi grŵp o bobl a chanddynt brofiad perthnasol i lunio eu maes llafur ar gyfer CGM.
234. Mae paragraff 26(12) a (13) yn diwygio paragraffau 13 a 14 o Atodlen 31 i Ddeddf 1996 i ystyried y gofynion gwahanol ar gyfer meysydd llafur cytunedig yng Nghymru ac yn Lloegr.
235. Mae paragraff 26(14) yn mewnosod paragraff 14A yn Atodlen 31 i Ddeddf 1996. Mae paragraff 14A yn ei gwneud yn ofynnol i'r personau a bennir yn y paragraff hwnnw roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr Atodlen.

Deddf Addysg 1997

236. Mae paragraffau 27 ac 28 yn diwygio adran 56 o Ddeddf Addysg 1997 er mwyn egluro'r amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan y Ddeddf honno odanynt.

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

237. Mae paragraff 33 yn mewnosod adran 68A ym Mhennod 6 o Ddeddf 1998. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddynodi ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol yng Nghymru yn rhai sydd â chymeriad crefyddol. Yn flaenorol, roedd gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud hynny o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998, ond mae'r adran honno bellach yn gymwys o ran Lloegr yn unig.

230. Paragraph 26(4) amends Schedule 31 to the 1996 Act so as to require a local authority in Wales that convenes an agreed syllabus conference to appoint a committee of persons to the conference to represent Christian denominations, other religions and denominations, and non-religious philosophical convictions. The local authority must take all reasonable steps to secure that the membership of the committee is numerically proportionate to the strength of each religion, denomination, or conviction in its local area (see the new paragraph 4(5) and (6) of Schedule 31 to the 1996 Act inserted by paragraph 26(6)).
231. Paragraph 26(9) inserts paragraph 9A into Schedule 31 to the 1996 Act. Paragraph 9A set out the conditions that must be met before a local authority in Wales may adopt its first agreed syllabus for RVE under section 375A of the 1996 Act. It specifies the circumstances where by the Welsh Ministers would be required to take action (see paragraph 12 of Schedule 31) in the event of those conditions for adoption not being met.
232. Paragraph 26(10) inserts sub-paragraphs (2A) to (2D) into paragraph 10 of Schedule 31 to the 1996 Act. Sub-paragraphs (2B) and (2C) set out the conditions that must be met before a local authority in Wales may give effect to the recommendations made by an agreed syllabus conference that has been convened to reconsider an agreed syllabus.
233. Paragraph 26(11) inserts sub-paragraph (1A) into paragraph 12 of Schedule 31 to the 1996 Act. This sub-paragraph states that, where required by paragraph 9A or 10 of that Schedule, the Welsh Ministers must appoint a group of people with relevant experience to prepare their RVE syllabus.
234. Paragraph 26(12) and (13) amends paragraphs 13 and 14 of Schedule 31 to the 1996 Act to take account of the different requirements for agreed syllabuses in Wales and in England.
235. Paragraph 26(14) inserts paragraph 14A into Schedule 31 to the 1996 Act. Paragraph 14A requires the persons specified in that paragraph to have regard to any guidance given by the Welsh Ministers when exercising their functions under the Schedule.

Education Act 1997

236. Paragraphs 27 and 28 amend section 56 of the Education Act 1997 in order to clarify the circumstances in which the Welsh Ministers may make regulations under that Act.

School Standards and Framework Act 1998

237. Paragraph 33 inserts section 68A into Chapter 6 of the 1998 Act. This section gives the Welsh Ministers the power to designate foundation or voluntary schools in Wales as having a religious character. The Welsh Ministers previously had the power to do so under section 69(3) of the 1998 Act, but that section now applies in relation to England only.

238. Mae adran 68A o Ddeddf 1998 yn darparu i ddynodiadau presennol a wnaed o dan adran 69(3) o'r Ddeddf honno barhau i gael effaith, ond i gael eu trin fel pe baent wedi eu gwneud o dan yr adran newydd. Mae hyn er mwyn sicrhau eglurder a pharhad ar gyfer yr ysgolion hynny sydd eisoes wedi eu dynodi yn rhai sydd â chymeriad crefyddol.
239. Mae adran 68A(3) o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer dynodi.
240. Mae paragraffau 34 a 35 yn diwygio adran 69 o Ddeddf 1998 (a'r pennawd italg o'i blaen) fel eu bod yn gymwys i Loegr yn unig.
241. Mae paragraff 36 yn diwygio adran 71(1) o Ddeddf 1998 fel bod hawl rhiant i dynnu plentyn yn ôl o AG yn gymwys i Loegr yn unig. Ni wneir unrhyw ddiwygiad i adran 71(1A) ac (1B) o'r Ddeddf honno, sy'n rhoi hawl rhiant i dynnu plentyn o'r oedran ysgol gorfodol yn ôl o addoliad crefyddol a hawl i ddisgyblion ôl-16 i'w tynnu eu hunain yn ôl o addoliad crefyddol.
242. Nid yw'r Ddeddf yn gwneud unrhyw ddiwygiad i adran 71(3) o Ddeddf 1998. O ganlyniad, os yw disgybl yng Nghymru yn cael ei dynnu'n ôl o addoliad crefyddol caniateir i'r disgybl hefyd gael ei dynnu'n ôl o'r ysgol fel y'i disgrifir yn adran 71(3) o'r Ddeddf honno. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, os yw disgybl yn cael ei dynnu'n ôl o fynychu addoliad crefyddol, ac os yw'r amodau yn adran 71(3)(a) i (c) wedi eu bodloni, y caniateir i'r disgybl hwnnw hefyd gael ei dynnu'n ôl o'r ysgol er mwyn cael AG mewn man arall (yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad yn adran 71(4)).
243. Nid yw darparu AG ar gyfer disgybl o dan adran 71(3) o Ddeddf 1998 yn effeithio ar y gofyniad o dan Ran 2 o'r Ddeddf hon i ddarparu addysgu a dysgu ar gyfer y disgybl sy'n cwmpasu CGM. Mae'r gofyniad i ddarparu'r addysgu a dysgu hwnnw yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â'r disgybl, a rhaid i unrhyw AG a ddarperir ar gyfer y disgybl o dan adran 71(3) o Ddeddf 1998 fod yn ychwanegol at yr addysgu a dysgu a ddarperir mewn cysylltiad ag CGM (yn hytrach nag yn lle hynny).
244. Mae paragraff 36(5) yn mewnosod is-adran (7A) yn adran 71 o Ddeddf 1998. Mae'r is-adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod pob disgybl mewn ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig yng Nghymru, i'r graddau y mae'n ymarferol, yn mynychu addoliad crefyddol oni bai ei fod yn cael ei dynnu'n ôl yn unol â dymuniadau rhiant y disgybl neu, yn achos disgybl ôl-16, yn unol â dymuniadau'r disgybl ei hun. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol o ganlyniad i'r diwygiad a wneir i adran 138A o Ddeddf 1998 gan baragraff 38 o'r Atodlen hon.

238. Section 68A of the 1998 Act provides for existing designations made under section 69(3) of that Act to continue to have effect, but to be treated as though they were made under the new section. This is to ensure clarity and continuity for those schools already designated as having a religious character.
239. Section 68A(3) of the 1998 Act provides the Welsh Ministers with a power to make regulations setting out the procedure for designation.
240. Paragraphs 34 and 35 amend section 69 of the 1998 Act (and the italic heading before it) so that they apply to England only.
241. Paragraph 36 amends section 71(1) of the 1998 Act so that the parental right to withdraw a child from RE applies to England only. No amendment is made to section 71(1A) and (1B) of that Act, which confer a parental right to withdraw a child of compulsory school age from religious worship and a right for post-16 pupils to withdraw themselves from religious worship.
242. The Act makes no amendment to section 71(3) of the 1998 Act. The result is that if a pupil in Wales is withdrawn from religious worship the pupil may also be withdrawn from school as described in section 71(3) of that Act. In practice, this means that if a pupil is withdrawn from attendance at religious worship, and the conditions in section 71(3)(a) to (c) are satisfied, that pupil may also be withdrawn from school in order to receive RE elsewhere (subject to the limitation in section 71(4)).
243. The provision of RE for a pupil under section 71(3) of the 1998 Act does not affect the requirement under Part 2 of this Act to provide teaching and learning for the pupil that encompasses RVE. The requirement to provide that teaching and learning continues to apply in relation to the pupil, and any RE provided for the pupil under section 71(3) of the 1998 Act must be in addition (rather than instead of) the teaching and learning provided in respect of RVE.
244. Paragraph 36(5) inserts sub-section (7A) into section 71 of the 1998 Act. This subsection requires the Welsh Ministers to make regulations to ensure that, so far as is practicable, every community or foundation special school pupil in Wales attends religious worship unless withdrawn in accordance with the wishes of the pupil's parent or, in the case of a post-16 pupil, in accordance with the pupil's own wishes. These regulations are subject to the negative procedure as a result of the amendment made to section 138A of the 1998 Act by paragraph 38 of this Schedule.

245. Mae paragraff 37 yn diwygio adran 124B o Ddeddf 1998 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â dynodi bod i ysgolion annibynnol gymeriad crefyddol. Mae'n mewnosod is-adran newydd (A1) yn adran 124B o Ddeddf 1998, er mwyn cymhwyso is-adrannau 68A(1) a (3) o'r Ddeddf honno i ysgolion annibynnol yn yr un ffordd ag y mae'r is-adrannau hynny yn gymwys i ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y caniateir i ysgolion annibynnol gael eu dynodi drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru yn ysgolion annibynnol sydd â chymeriad crefyddol. Ni chymhwysir adran 68A(2) o Ddeddf 1998 i ysgolion annibynnol gan baragraff 37, am fod yr un effaith yn cael ei chyflawni gan adran 124B(2) o Ddeddf 1998 (fel y'i diwygir gan baragraff 37(4)) mewn perthynas â gorchmynion dynodi sy'n dynodi ysgolion annibynnol.
246. Mae paragraffau 12, 29-32, 34, 38-43, 51, 62-65 ac 68-69 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â dynodi ysgolion sydd â chymeriad crefyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r paragraffau hyn yn diwygio darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi cyfeiriadau at y darpariaethau a fewnosdir gan ddarpariaethau cyfatebol yn Atodlen 2 i'r Ddeddf hon yn lle cyfeiriadau at ddarpariaethau sydd wedi eu diddymu neu eu diwygio.
247. Mae paragraff 42 yn gwneud diwygiadau i Atodlen 19 i Ddeddf 1998 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.

Deddf Addysg 2002

248. Mae paragraffau 45 ac 46 yn diddymu Rhan 7 o Ddeddf 2002 ac yn gwneud newidiadau canlyniadol i'r Ddeddf honno mewn cysylltiad â'r diddymiad hwnnw.
249. Mae paragraffau 46, 57 ac 61 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ofynnol o ganlyniad i ddiddymu Rhan 7 o Ddeddf 2002.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

250. Mae adran 14 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio a chynnal cynllun datblygu unigol (CDU) ar gyfer plentyn neu berson ifanc y mae'r awdurdod wedi penderfynu bod ganddo anghenion dysgu ychwanegol. Pan fo gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir CDU wedi ei lunio gan yr awdurdod lleol sy'n cynnwys darpariaeth sy'n datgymhwyso neu'n addasu unrhyw ofynion gweithredu cwricwlwm o dan y Ddeddf (gweler adran 41), mae paragraff 74 o'r Atodlen hon yn gwahardd yr awdurdod lleol rhag cyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i lunio neu gynnal CDU ar gyfer y disgybl.
251. Mae paragraff 75 o Atodlen 2 yn gwneud mân ddiwygiad i Atodlen 1 i Ddeddf 2018 drwy ddiddymu diwygiad i adran 19 o Ddeddf 1996. Nid oes angen y diwygiad hwn mwyach o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan baragraff 3, sy'n cyfyngu ar gymhwyso adran 19 o Ddeddf 1996 i Loegr yn unig.

*These notes refer to the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (asc 4)
which received Royal Assent on 29 April 2021*

245. Paragraph 37 amends section 124B of the 1998 Act which makes provision in relation to the designation of independent schools as having a religious character. It inserts a new subsection (A1) into section 124B of the 1998 Act, so as to apply subsections 68A(1) and (3) of that Act to independent schools in the same way as those subsections apply to voluntary and foundation schools in Wales. This means that independent schools can be designated by an order made by the Welsh Ministers as independent schools with a religious character. Section 68A(2) of the 1998 Act is not applied to independent schools by paragraph 37, as the same effect is achieved by section 124B(2) of the 1998 Act (as amended by paragraph 37(4)) in relation to designation orders that designate independent schools.
246. Paragraphs 12, 29-32, 34, 38-43, 51, 62-65 and 68-69 make minor and consequential amendments in relation to the designation of schools with a religious character. The majority of these paragraphs amend provisions in primary legislation so as to substitute references to repealed or amended provisions with references to the provisions inserted by equivalent provisions in Schedule 2 of this Act.
247. Paragraph 42 makes amendments to Schedule 19 of the 1998 Act so that it applies to England only.

Education Act 2002

248. Paragraphs 45 and 46 repeal Part 7 of the 2002 Act and make consequential changes to that Act in connection with that repeal.
249. Paragraphs 46, 57 and 61 contain minor and consequential amendments required as a result of the repeal of Part 7 of the 2002 Act.

Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018

250. Section 14 of the Additional Learning Needs and Education Tribunals (Wales) Act 2018 (“the 2018 Act”) places a duty on local authorities to prepare and maintain an individual development plan (IDP) for a child or young person the authority has decided has additional learning needs. Where a pupil at a maintained school has an IDP prepared by the local authority that includes provision disapplying or modifying any curriculum implementation requirements under the Act (see section 41), paragraph 74 of this Schedule prohibits the local authority from directing the governing body of the school to prepare or maintain an IDP for the pupil.
251. Paragraph 75 of Schedule 2 makes a minor amendment to Schedule 1 to the 2018 Act by repealing an amendment to section 19 of the 1996 Act. This amendment is no longer required as a result of the amendments made by paragraph 3, which restrict the application of section 19 of the 1996 Act to England only.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

252. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:

<https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=28836>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	6 Gorffennaf 2020
Cyfnod 1 - Dadl	15 Rhagfyr 2020
Cyfnod 2 - Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	29 Ionawr 2021
Cyfnod 3 - Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	2 Mawrth 2021
Cyfnod 4 - Cymeradwywyd gan y Senedd	9 Mawrth 2021
Y Cydsyniad Brenhinol	29 Ebrill 2021

©^h Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

252. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd's website at:

<https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=28836>

Stage	Date
Introduced	6 July 2020
Stage 1 - Debate	15 December 2020
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	29 January 2021
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	2 March 2021
Stage 4 Approved by the Senedd	9 March 2021
Royal Assent	29 April 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-12016-5



9 780348 120165